# *Y CYNLLUN YMCHWIL CYMUNEDOL*

CRYNODEB O ADRODDIAD A BARATOWYD GAN COLIN H. WILLIAMS AND JEREMY EVAS
ADRAN Y GYMRAEG
PRIFYSGOL CYMRU CAERDYDD
AR GYFER BWRDD YR IAITH GYMRAEG

AWST 1997

Hawlfraint:
Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1997

Cedwir pob hawl. Ni ellir atgynhyrchu unrhyw ran o'r llyfr hwn mewn unrhyw ffurf na thrwy unrhyw fodd heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr.

ISBN 0 9527533 5 9

Mae Colin H. Williams yn Athro Ymchwil ac mae Jeremy Evas yn ymchwilydd yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Caerdydd. Hoffent ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r prosiect ymchwil hwn. Fe'u henwir yn unigol yn adran gydnabyddiaeth y prif adroddiad.

ADRAN Y GYMRAEG
PRIFYSGOL CYMRU CAERDYDD
BLWCH SP 910
CAERDYDD
CF1 3XW

E-BOST:
SCYCHW@CF.AC.UK
SCYJCE@CF.AC.UK

GWE FYD EANG:
HTTP://WWW.CF.AC.UK/UWCC/CYMRAEG/INDEX.HTML

# *Y Cynllun Ymchwil Cymunedol*

*Crynodeb o ymchwil gymunedol yn yr Wyddgrug, Dyffryn Teifi, a Chymoedd Gwendraeth ac Aman*

**CYNNWYS**

**1. Rhagarweiniad**

1.1 Cefndir
1.2 Y Briff
1.3 Yr ardaloedd a astudiwyd
1.4 Dulliau casglu data

**2. Canlyniadau'r Ymchwil**

2.1 Yr Wyddgrug a'r cyffiniau
2.2 Dyffryn Teifi
2.3 Cymoedd Gwendraeth ac Aman: Cwm Gwendraeth
2.4 Cymoedd Gwendraeth ac Aman: Cwm Aman
2.5 Prif Ddarganfyddiadau'r Gwaith Maes

**3. Ymyrraeth Ieithyddol: Ymyrraeth Effeithiol?**

3.1 Yr Wyddgrug
3.2 Dyffryn Teifi
3.3 Cymoedd Gwendraeth ac Aman
3.4 Menter Cwm Gwendraeth

3.5 Menter Aman Tawe
3.6 Casgliad

**4. Mentrau Iaith: Fframwaith Ar Gyfer Atgyfnerthu'r Gymraeg yn y Gymuned**

4.1 Y Gymuned Gymraeg?
4.2 Mentrau Iaith ar gyfer atgyfnerthu'r Gymraeg
4.3 Y Fframwaith

**5. Dulliau eraill o ymyrryd**

5.1 Mentrau i hyrwyddo'r iaith ar lefel sirol: enghraifft Sir Gaerfyrddin
5.2 Canolfannau Adnoddau Iaith Sirol
5.3 Canolfan Adnoddau Iaith Genedlaethol
5.4 Animateurs ieithyddo

**6. Gwireddu'r Potensial**

6.1 Beth yw'r prif rwystrau i'r Gymraeg ym myd gwaith?
6.2 Beth sydd i'w wneud ?
6.3 Newid agweddau

**7. Argymhellion**

7.1 Y Prif Argymhellion
7.2 Argymhellion eraill

# 1. Rhagarweiniad

## 1.1. Cefndir

1.1.1. Yn ei *Strategaeth ar gyfer y Gymraeg* a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 1996, dywed Bwrdd yr Iaith Gymraeg fod pedair prif her yn wynebu'r iaith Gymraeg:

- Cynyddu niferoedd y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg
- Darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith
- Newid arferion defnyddio'r iaith, ac annog pobl i gymryd mantais o'r cyfleoedd a ddarperir
- Atgyfnerthu'r Gymraeg fel iaith gymunedol

1.1.2. Comisiynwyd y cynllun ymchwil cymunedol hwn yn benodol i gael atebion ymarferol i'r bedwaredd her, sef *Atgyfnerthu'r Gymraeg fel iaith gymunedol*. Fodd bynnag, mae'r ymchwil yn cynyddu'r ddealltwriaeth o'r ffactorau hynny sy'n effeithio ar sefyllfa'r iaith yn gyffredinol, ac felly'n berthnasol i weithredu'r Strategaeth yn ei chrynswth.

1.2.3. Yn y Crynodeb hwn, ceir prif gasgliadau ymchwil a wnaed rhwng Ionawr 1996 a Mawrth 1997. Nodir prif ganfyddiadau'r data a gasglwyd yn ogystal â goblygiadau'r canlyniadau ar gyfer cynllunio ieithyddol cymunedol. Cyhoeddir adroddiad llawn ar yr ymchwil gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a Phrifysgol Cymru Caerdydd ar eu safleoedd Gwe.

**1.2. Y Briff**

1.2.1. Pwrpas yr ymchwil yw archwilio, ar sail cymhariaeth, i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth, Cwm Aman, ardal Antur Teifi, a'r Wyddgrug a'r cyffiniau, a chynnig ffyrdd ymarferol o gynyddu'r defnydd ohoni drwy Gymru gyfan.

1.2.2. Yn benodol, mae'r gwaith yn ymchwilio i'r diffyg sydd yn yr asiantau cymdeithasol sy'n cynnal yr iaith er mwyn darganfod sut y mae unigolion ac asiantau ieithyddol yn medru dyfeisio strategaethau i oresgyn y diffyg cyswllt beunyddiol rhwng siaradwyr Cymraeg mewn cylchoedd a chyd-destunau cydnabyddedig.

1.2.3. Seiliwyd yr ymchwil ar y cwestiynau canlynol:

- Os nad yw'r hen gylchoedd cymdeithasol yn cynnal y Gymraeg i'r un graddau ag y buont gynt, a oes cylchoedd newydd y gellid eu creu i atgyfnerthu defnyddio'r iaith yn y gymuned?
- Os oes, beth ydynt?
- Pwy ddylai eu sefydlu a'u rheoli?
- Sut y dylent gael eu hariannu, yn breifat ynteu'n gyhoeddus, neu gan bartneriaeth?
- A ddylent godi'n naturiol o fywyd y bobl neu a ddylent gael eu sefydlu gan y llywodraeth yn lleol neu'n ganolog? e.e. ar ffurf Canolfannau Adnoddau Diwylliannol.
- Ai rhan o swyddogaeth Antur Teifi neu Fenter Cwm Gwendraeth a Menter Aman Tawe fyddai cynnig a rhedeg y rhwydweithiau newydd fel rhan o'r broses o 'ymyrraeth ieithyddol'?
- Er mwyn ymyrryd yn effeithiol yn sefyllfa'r iaith, a oes angen mwy o ddata penodol ar y defnydd a wneir o'r Gymraeg?

1.2.4. Ymchwiliwyd hefyd i'r cyd-destunau canlynol y defnyddir yr iaith ynddynt, sef:

- Yn bersonol e.e.wrth ddarllen, ac wrth wylio'r teledu, gartref a chyda'r teulu;
- Yn y gymdeithas, ond yn anffurfiol e.e. wrth hamddena, gyda chymdogion, gyda chydweithwyr;
- Yn y gymdeithas, ond yn ffurfiol, gyda'r sector preifat e.e. siop, banc, neu gyda chwmnïoedd arbennig;
- Yn y gymdeithas, ond yn fwy ffurfiol eto, wrth ddelio â 'chyfundrefn' e.e. cyngor dosbarth, awdurdod addysg, ysbyty a'r meddyg.

1.2.5. Yn achos y ddwy elfen olaf hyn, mae'r ymchwil yn ceisio darganfod sut y mae *diglossia* (yn llythrennol dwyieithrwydd, ond hefyd sut y gellir defnyddio dwy iaith mewn gwahanol sefyllfaoedd cymunedol penodol) yn effeithio ar barodrwydd person i siarad, darllen ac ysgrifennu'r Gymraeg yn hytrach na'r Saesneg. Wrth ddadansoddi canlyniadau'r ymchwil, ystyriwyd effaith newidiadau sylweddol ym myd addysg, y cyfryngau a'r sector cyhoeddus ar arferion a disgwyliadau pobl wrth ddefnyddio'r iaith.

1.2.6. Casglwyd gwybodaeth ar y rhwydweithiau sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd dan sylw, i ddangos:

- pa rwydweithiau sy'n cynnal y Gymraeg;
- onid oes rhwydwaith ar gael, beth yw'r *effaith* ar y defnyddwyr;
- pa mor ymarferol yw newid y drefn;
- a yw'r defnyddwyr yn *dymuno* newid y drefn;
- yr hyn sy'n cymell pobl i beidio â defnyddio'r Gymraeg mewn rhwydwaith lle mae hynny'n bosibl;
- yr hyn y gellid ei wneud i beri iddynt newid eu harfer.

1.2.7. Yn sgil hynny ystyriwyd:

- pa rwydweithiau sy'n ddymunol ac yn ymarferol;
- pa rwydweithiau sy'n ddymunol ond yn anymarferol;
- pa rwydweithiau sy'n angenrheidiol oherwydd goblygiadau statudol Deddf yr Iaith Gymraeg (1993) ac ad-drefnu Llywodraeth Leol (Ebrill 1996).

1.2.8. Ymyrraeth ieithyddol a normaleiddio yw prif themâu'r ymchwil. Rhaid oedd edrych felly ar beth fu effaith ymyrraeth yn ardaloedd y Mentrau Iaith. Rhaid gofyn ai ymyrraeth yn y tymor byr neu yn y tymor

canol sydd fwyaf ymarferol. Os yn y tymor byr, ac yn gysylltiedig â gwaith y Mentrau Iaith, a ydynt yn addas ac yn ddigon hyblyg i gyflawni'r gwaith? Yn yr un modd, rhaid gofyn beth fyddai effaith peidio ag ymyrryd â'r sefyllfa ieithyddol a gadael i brosesau normaleiddio defnyddio'r Gymraeg fynd rhagddynt yn naturiol.

## 1.3. Yr ardaloedd a astudiwyd

1.3.1. Isod, esbonnir y rhesymau dros ddewis y tair ardal astudio.

<u>Yr Wyddgrug</u>

1.3.2. Mae'r Wyddgrug yn ardal isel ei dwysedd siaradwyr Cymraeg ac mae'n nodweddiadol o lawer o ardaloedd trefol lle y mae'r Saesneg yn brif iaith cyfathrebu. Lleiafrif yn y gymuned yw'r siaradwyr Cymraeg, ac nid ydynt wedi profi unrhyw fath o ymyrraeth ieithyddol arwyddocaol. Serch hynny, mae'r Wyddgrug yn ganolfan weinyddol strategol a gall mesurau i hyrwyddo'r Gymraeg yno gael effaith arwyddocaol ar batrymau defnyddio iaith. Dylai canlyniadau'r ymchwil yn yr Wyddgrug fod yn berthnasol iawn i ardaloedd cyffelyb eraill yng ngogledd-ddwyrain a de-ddwyrain Cymru.

<u>Dyffryn Teifi</u>

1.3.3. Fel rhan o'r 'Fro Gymraeg draddodiadol', disgwylid i'r Gymraeg fod yn brif iaith i drwch y boblogaeth yn Nyffryn Teifi. Yn ddiweddar, mae'r ardal wedi profi llawer iawn o newid cymdeithasol ac economaidd, gan gynnwys mewnlifiad sylweddol o drigolion di-Gymraeg, ac, i raddau llai, all-lifiad rhai o drigolion Cymraeg eu hiaith. Hyd yn hyn, ymyrraeth economaidd ac nid ymyrraeth ieithyddol benodol a welwyd yma, a honno o dan adain Antur Teifi, sef asiantaeth ddatblygu economaidd a sefydlwyd i wrth-droi dirywiad economaidd yn yr ardal. Mae Antur Teifi yn un o'r ychydig fentrau sector preifat a chanddynt y Gymraeg yn brif gyfrwng eu gweithgareddau, a hynny o achos natur ieithyddol yr ardal y mae'r Antur yn ei gwasanaethu.

<u>Cymoedd Gwendraeth ac Aman</u>

1.3.4. Mae'r cymoedd hyn â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Fel yn nifer o ardaloedd diwydiannol eraill yn ne Cymru, mae effeithiau diweithdra a thlodi wedi pwyso'n drwm ar y gymuned. Yn benodol, mae'n amlwg fod nifer o'r hen rwydweithiau a gynhaliai'r Gymraeg wedi gwanhau, ond mae rhai newydd wedi ymddangos. Ond, hyd yn ddiweddar,

nid oeddynt yn ddigonol i sicrhau cymuned ieithyddol hunan-gynhaliol. Er mwyn ceisio atal dirywiad y Gymraeg, sefydlwyd dwy Fenter Iaith ar ddechrau'r 90au. Dewiswyd Cymoedd Gwendraeth ac Aman er mwyn archwilio effaith uniongyrchol y Mentrau hyn sy'n cynrychioli ymyrraeth ieithyddol arloesol. Erbyn heddiw, mae'r cysyniad o Fenter Iaith yn gyfarwydd iawn; ond ychydig a wyddys am eu dylanwad, boed hynny'n llwyddiannus ai peidio. O'u cychwyn, canolbwyntiai Menter Cwm Gwendraeth a Menter Aman Tawe ar elfennau gwahanol yn y broses o adfywio'r Gymraeg yn y gymuned, ac o ganlyniad, rhydd hyn gyfle i astudio dulliau gwahanol o ymyrraeth ieithyddol oddi mewn i gyd-destun ieithyddol tebyg.

### 1.4. Dulliau casglu data

1.4.1. Oedolion dros 17 oed yn unig a gynhwyswyd yn y sampl. Defnyddiwyd holiaduron pwrpasol i gasglu data am eu defnydd iaith yn y tair ardal dan sylw (ceir copi o'r holiaduron yn atodiadau'r adroddiad llawn) gyda chraidd cyffredin o gwestiynau am yr elfennau canlynol:

- y defnydd a wneir o'r Gymraeg a'r Saesneg yn y tair ardal a astudiwyd;
- asesiad o sgiliau ieithyddol y boblogaeth yn yr ardaloedd hynny;
- dyheadau atebwyr yr holiadur ar gyfer defnydd pellach o'r Gymraeg;
- cefndir addysgol a galwedigaethol yr atebwyr yn ôl statws ieithyddol;
- strwythur ieithyddol teuluoedd yr atebwyr;
- disgrifiadau o rwyddineb defnyddio'r iaith dros beuoedd gwahanol;
- pa iaith y mae'n well gan atebwyr ei siarad yn y peuoedd hynny;
- defnydd ymarferol o'r iaith;
- asesiadau hunan-hyder yr atebwyr yn y Gymraeg;
- nifer y bobl sy'n manteisio ar y cyfleusterau dwyieithog sydd eisoes yn bod.

1.4.2. Wedyn, holwyd am ganfyddiadau'r atebwyr ynghylch elfennau penodol yn eu hardaloedd hwythau. Yn achos yr Wyddgrug, holwyd am y potensial i ymyrryd yn sefyllfa'r Gymraeg yn yr ardal, ac yn achos Dyffryn Teifi, Antur Teifi a ddaeth dan sylw. Yng Nghymoedd Gwendraeth ac Aman, canolbwyntiwyd ar rôl ac effaith y Mentrau Iaith.

1.4.3. Yn olaf, holwyd am nifer o elfennau eraill a ddeilliai o ddatblygiadau diweddar yn statws y Gymraeg a'r cynnydd yn ei phroffil cyhoeddus.

1.4.4. Er mwyn sicrhau ymateb ansoddol yn ogystal ag un meintiol, cwblhawyd cynifer o holiaduron â phosibl drwy gyfweliad wyneb-yn-

wyneb ag atebwyr. Yn ogystal, caniatawyd i nifer o drigolion yr ardaloedd lanw'r holiaduron yn eu hamser eu hunain. Gadawyd adran wag ar ddiwedd yr holiadur er mwyn i atebwyr gael rhoi eu barn ar unrhyw beth y teimlent nas cynhwyswyd yn yr holiadur. Rhestrir eu sylwadau ar ddiwedd canlyniadau pob ardal astudio yn yr adroddiad llawn.

1.4.5. Daw data'r ymchwil hon o'r 563 o unigolion a gynhwyswyd yn y sampl derfynol. Cafwyd 95 atebwr yn ardal yr Wyddgrug, 218 yn Nyffryn Teifi, 163 yng Nghwm Gwendraeth ac 87 yn Nyffryn Aman. O ganlyniad, adeiladwyd cronfa ddata sylweddol a chynhwysfawr o 97,400 o werthoedd data (17,765 o werthoedd yn achos yr Wyddgrug; 36,406 yn achos Dyffryn Teifi; 27,221 yn achos Cwm Gwendraeth a 16,008 yn achos Cwm Aman). Yn y Crynodeb hwn adroddir ar brif ganlyniadau'r ymchwil yn unig. Ceir mwy o fanylion ystadegol yng nghorff y prif adroddiad.

Top

# 2. Canlyniadau'r Ymchwil

## 2.1. Yr Wyddgrug a'r cyffiniau

### Canlyniadau

Cyfansoddiad teuluol

- Roedd 27% o'r sampl yn siarad Cymraeg fel mamiaith; cyfanswm y rhai a oedd yn siarad y Gymraeg i unrhyw raddau oedd 39%.
- Yr oedd 70% o'r siaradwyr Cymraeg a holwyd yn briod neu â phartner, a chafwyd nad oedd ond 39% o'r rhain â chymar Cymraeg ei (h)iaith.
- Yr oedd 20.6% o blant hþn y sampl gyfan yn siarad Cymraeg.
- Ymddangosai fod lleiafrif sylweddol o blant siaradwyr Cymraeg yn ddi-Gymraeg.
- Yng nghartrefi 28% o'r siaradwyr Cymraeg, nid oedd unrhyw un arall yn medru'r iaith.

Diddorol ac arwyddocaol yw nodi fod rhai rhieni di-Gymraeg yr Wyddgrug yn dewis addysg Gymraeg i'w plant, tra bo rhai rhieni Cymraeg eu hiaith yn dewis peidio â throsglwyddo'r iaith.

Sgiliau ieithyddol

- Datganodd 28% o'r siaradwyr mamiaith Gymraeg fod yn well ganddynt ysgrifennu yn Gymraeg. Datganodd yr un ganran o'r un grðp fod yn well ganddynt ysgrifennu yn Saesneg.
- Dim ond 12% o'r siaradwyr Cymraeg oedd yn well ganddynt ddarllen yn Gymraeg yn unig neu gan amlaf. Datganodd 44% o'r un grðp fod yn well ganddynt ddarllen yn Saesneg yn unig neu gam amlaf.
- Nododd 54% o'r siaradwyr Cymraeg fod eu Cymraeg ysgrifenedig yn eithaf da neu'n dda iawn, o'u cymharu â'r 96% o'r un garfan a nododd fod eu Saesneg ysgrifenedig yn eithaf da neu'n dda iawn.

Peuoedd cymdeithasol a defnydd y Gymraeg

- Yn ymarferol, Saesneg yn unig a ddefnyddid gan fwyafrif llethol y siaradwyr Cymraeg yn y 19 sefyllfa yr holwyd amdanynt. Y prif eithriadau i'r duedd hon oedd wrth ddelio ag athrawon ac wrth ddefnyddio'r llyfrgell.
- Byddai 77% o'r siaradwyr Cymraeg yn hapus i ddefnyddio'r Gymraeg mewn croestoriad o sefyllfaoedd cymdeithasol cyffredin pe bai modd iddynt wneud.
- Barnodd 64% o'r siaradwyr Cymraeg fod diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn mennu ar eu hawliau fel dinasyddion.
- Nid oedd 67% o'r siaradwyr Cymraeg yn ymwybodol o unrhyw erydiad sylweddol yn sefyllfa'r iaith yn y gymuned.

## Casgliadau

2.1.1. Yn aml, diffyg hyder neu berchnogaeth ar iaith sy'n gyfrifol am y methiant i'w throsglwyddo i'r genhedlaeth nesaf, ac mae diffyg hyder ymhlith y siaradwyr Cymraeg yn elfen amlwg yn yr Wyddgrug, yn enwedig wrth ddarllen ac wrth ysgrifennu'r iaith. Mae hon, fel y gellid disgwyl efallai, yn broblem fwy difrifol ymysg y garfan ail-iaith.

2.1.2. Yn draddodiadol, y teulu oedd prif asiant trosglwyddo'r Gymraeg, ond mae'n amlwg yn achos yr Wyddgrug fod gan y system addysg rôl gynyddol bwysig yn hyn o beth.

2.1.3. Mae'r rhwydweithiau Cymraeg sydd ar gael yn annigonol i gwrdd ag anghenion poblogaeth yr ardal.

2.1.4. Mae proffil y Gymraeg yn is nag y gallai fod yn yr Wyddgrug: nid yw'r potensial ar gyfer cynyddu defnyddio'r Gymraeg yn cael ei wireddu.

2.1.5. Nid yw defnydd ymarferol o'r Gymraeg yn adlewyrchu'r dyheadau dewis iaith a gafwyd yn y data: datganodd dysgwyr yn ogystal â siaradwyr rhugl y byddai eu defnydd o'r Gymraeg yn cynyddu pe darperid cyfleoedd ar eu cyfer.

2.1.6. Ar hyn o bryd mae diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn y sector preifat. Mae potensial amlwg o ran buddsoddi mewn cyfleodd i ddefnyddio'r iaith yn y sector hwn, ac mewn sawl pau benodol arall.

2.1.7. Mae'r ymdeimlad o ddiffyg hawliau ieithyddol yn amlwg yn yr ardal.

2.1.8. Ymddengys mai iaith dan warchae neu iaith amherthnasol i'r mwyafrif yw'r Gymraeg yn ardal yr Wyddgrug. Y mae wedi'i chyfyngu i ychydig iawn o rwydweithiau cymdeithasol nad ydynt yn denu nifer helaeth o siaradwyr Cymraeg, heb son am fwyafrif trigolion di-Gymraeg yr ardal.

2.1.9. Serch hynny, y mae yn yr Wyddgrug botensial mawr am ddefnydd ehangach o'r Gymraeg. Un o'r prif resymau dros sefyllfa fregus yr iaith yn yr ardal yw'r diffyg darpariaeth ar ei chyfer ac nid diffyg dyhead ar ran ei siaradwyr. Daeth hyn yn glir o ystyried yr elfennau canlynol a gafwyd yn yr ymchwil:

- y defnydd cyfredol o'r Gymraeg o dan amgylchiadau ieithyddol 'anodd';
- nifer yr atebwyr a gefnogai fesurau fel gostyngiad ar filiau treth er mwyn annog cwmnïoedd i gynnig gwasanaethau dwyieithog o'r newydd;
- nifer yr atebwyr a gefnogai ymgorffori'r Gymraeg ym myd cynllunio gwlad a thref;
- nifer yr atebwyr a gefnogai hysbysebu dwyieithog yn yr ardal;
- nifer sylweddol yr atebwyr a deimlai fod statws israddol y Gymraeg yn yr ardal yn effeithio ar eu hawliau fel dinasyddion;
- nifer yr atebwyr a ddatganodd y byddent yn defnyddio mwy ar y Gymraeg pe bai cyfleoedd ychwanegol yn cael eu creu.

2.1.10. Daeth yn amlwg wrth wneud y gwaith maes fod rhai elfennau o'r ddrwgdybiaeth draddodiadol ymysg y di-Gymraeg tuag at y Gymraeg wedi lleihau yn y cyfnod diweddar, yn bennaf oherwydd newidiadau yn y system addysg, y cyfryngau a'r ymgais i roi mwy o statws i'r Gymraeg. Mae hyn yn argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol oherwydd bod adfywio a hyrwyddo'r Gymraeg yn ddibynnol ar gydweithrediad parod mwyafrif trigolion Cymru nad ydynt, ar hyn o bryd, yn siarad Cymraeg.

2.1.11. Gan fod ardal yr Wyddgrug yn ieithyddol gyffelyb i gynifer o ardaloedd eraill yng Nghymru, tybiwn fod ein dehongliad (ac felly'r argymhellion a gynigir ar ddiwedd yr adroddiad hwn) yn berthnasol i rannau o Gymru a hir-Seisnigwyd, ac sydd yn awr â dwysedd cymharol isel o siaradwyr Cymraeg. Rhaid nodi fod yr Wyddgrug yn freintiedig oherwydd bod ei rhwydweithiau Cymraeg wedi eu sefydlu ers amser: mater arall yw'r graddau y mae'r rhwydweithiau hyn yn ddigonol i ateb anghenion cyflawn siaradwyr Cymraeg y cylch. Ofnwn nad yw'r rhwydweithiau cyfredol yn ddigonol ar gyfer hyd yn oed bob grwp o fewn y gymuned Gymraeg ei hiaith, heb sôn am y mwyafrif di-Gymraeg yn yr ardal. Y neges ganolog a roddwn, felly, yw bod y dyhead i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg yn ardal yr Wyddgrug yn gadarn. Y cam nesaf yw cynyddu'r ddarpariaeth ddwyieithog a, thrwy hyn, sefydlu patrymau ymddygiad a fydd yn normaleiddio'r Gymraeg mewn nifer o beuoedd cymdeithasol yn yr ardal.

## 2.2. Dyffryn Teifi

### Canlyniadau

Cyfansoddiad teuluol

- Roedd y Gymraeg yn famiaith i 52.5% o'r sampl; yn ail-iaith i 21.5%, ac mae 4% wedi dysgu'r Gymraeg yn oedolion; 78% o'r sampl felly a fedrai'r Gymraeg.
- Roedd 39% o'r sampl yn briod neu â chymar. O'r Cymry Cymraeg a oedd â chymar, roedd 76% â phartner Cymraeg ei (h)iaith.
- Roedd 59% o blant hþn y sampl gyfan yn siarad Cymraeg.
- Ymddangosai fod lleiafrif sylweddol (22%) o blant hþn siaradwyr mamiaith yn llai rhugl eu Cymraeg na'u rhieni.
- Nid oedd unrhyw siaradwyr Cymraeg ychwanegol ym mhreswylfeydd 22% o'r sampl gyfan; 7% o'r grðp, 24% o'r grðp ail-iaith, a 56% o'r atebwyr di-Gymraeg.

Sgiliau ieithyddol

- Datganodd 20% o siaradwyr Cymraeg fod yn well ganddynt ysgrifennu yn Gymraeg. Datganodd 50% o'r un g rðp yn well ganddynt ysgrifennu yn Saesneg.
- Datganodd 17% o'r siaradwyr Cymraeg fod yn well ganddynt ddarllen yn Gymraeg yn unig neu gan amlaf. Datganodd 55% o'r un grðp fod yn well ganddynt ddarllen yn Saesneg gan amlaf neu'n unig. Datganodd y gweddill nad oedd wahaniaeth ganddynt ym mha iaith y darllenent.

- Nododd 72% o'r siaradwyr Cymraeg fod eu Cymraeg ysgrifenedig yn eithaf da neu'n dda iawn, o'u cymharu â'r 89% o'r un grŵp a nododd fod eu Saesneg ysgrifenedig yn eithaf da neu'n dda iawn.
- Mae hunanwerthusiad sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu Cymraeg y grŵp mamiaith yn gadarnhaol; ar gyfartaledd roedd dros 80% ohonynt yn honni fod eu sgiliau Cymraeg yn eithaf da neu'n dda iawn.

Nodwyd fod gallu ieithyddol siaradwyr Cymraeg Dyffryn Teifi yn ymddangos yn gadarn iawn, ac yn cynnig sylfaen arbennig o ffafriol ar gyfer datblygu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Peuoedd cymdeithasol a defnydd y Gymraeg

- Roedd mwyafrif mawr y siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg am hanner yr amser neu'n fwy yn y 19 sefyllfa yr holwyd amdanynt. Y prif eithriadau i'r duedd hon oedd wrth dderbyn gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, a chyda rheolwyr yn y gweithle.
- Byddai dros 90% o'r siaradwyr mamiaith yn hapus i ddefnyddio'r Gymraeg mewn croestoriad o sefyllfaoedd cymdeithasol cyffredin pe bai modd iddynt wneud hynny. Fodd bynnag, roedd y ffigyrau ar gyfer y grŵp ail-iaith yn tueddu fwy at y Saesneg.
- Barnodd 73% o'r siaradwyr mamiaith fod diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn mennu ar eu hawliau fel dinasyddion. Yn ogystal, nododd 65% o'r rhain, a 78% o'r grŵp ail-iaith, fod y diffyg hwn yn effeithio ar eu hunan-hyder wrth ddefnyddio'r iaith yn gyhoeddus.
- Ar gyfartaledd, roedd 11% o'r sampl gyfan o'r farn bod y Gymraeg ar gynnydd yn Nyffryn Teifi, gyda chanran o 12% yn credu ei bod yn lleihau. Yr oedd carfan fwy (25%) yn credu fod y Gymraeg yn eithaf sefydlog yn yr ardal.

Nodwyd fod mewnfudo yn ffactor sy'n effeithio ar sefyllfa sosioieithyddol yr ardal yn fawr. Ganed 58% o'r sampl gyfan yn yr ardal astudio; ganed 28% y tu allan i Gymru.

## Casgliadau

2.2.1 Y mae sylfeini ieithyddol y grŵp mamiaith yn Nyffryn Teifi yn weddol gadarn, er bod lle i'w cryfhau; fodd bynnag, ymddengys o'r data nad yw sylfeini siaradwyr ail-iaith yr un mor sicr.

2.2.2. Y mae dyfudiad (*shifft*) ieithyddol o gyfeiriad y Gymraeg i gyfeiriad y Saesneg yn dal i ddigwydd yn Nyffryn Teifi yn ôl ein hystadegau.

2.2.3. Ymddengys o'r data fod diffyg cyfle cymharol i ddefnyddio'r Gymraeg gyda gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn Nyffryn Teifi, a chyda rheolwyr yn y gweithle.

2.2.4. Y mae diffyg defnydd aelodau'r garfan ail-iaith o'r Gymraeg ar gyfer darllen ac ysgrifennu fel ei gilydd, a'u diffyg hoffter o'r iaith ar gyfer y tasgau hyn, yn her benodol.

2.2.5. Mae effaith rhai ysgolion uwchradd yn yr ardal sydd, i bob pwrpas, yn Saesneg eu cyfrwng (o achos y nifer fawr o bobl ddi-Gymraeg sydd wedi symud i'r ardal i fyw) yn andwyol am y rhesymau canlynol:

- Addysgir lleiafrif mamiaith Gymraeg yn yr ysgolion hyn drwy gyfrwng y Saesneg, ac y mae rhai o'r rhain yn datgan nad ydynt yn teimlo'n rhan o rwydweithiau Cymraeg yr ardal.
- Nid yw disgyblion ail-iaith yr ysgolion hyn yn cael digon o gyfle i ymdrochi mewn amgylchfyd hollol Gymraeg.

2.2.6. Peth arwyddocaol yw nodi fod nifer fawr o'r grwpiau Cymraeg yn Nyffryn Teifi o'r farn fod y diffyg cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithio ar eu hawliau fel dinasyddion.

2.2.7. Ni welwyd llawer iawn o farchnata pwrpasol ar yr iaith Gymraeg yn Nyffryn Teifi.

2.2.8. Cafwyd awgrymiadau o densiwn rhwng sectorau ieithyddol y gymuned ac ensyniadau gan rai y cyfwelwyd â hwy fod dwy gymuned gyfochrog yn datblygu yn yr ardal, y naill yn Gymraeg ei hiaith, a'r llall yn Saesneg. Mae cyfran sylweddol o'r grðp di-Gymraeg wedi eu hynysu'n ieithyddol, gan nad oedd unrhyw un ychwanegol yn siarad Cymraeg ar eu haelwydydd.

2.2.9. Mae'n amlwg fod cryn botensial i wella treiddiad y Gymraeg i fwy o beuoedd yn yr ardal. Mae mwyafrif llethol y siaradwyr mamiaith yn defnyddio'r iaith yn naturiol mewn sefyllfaoedd beunyddiol, er bod y grðp ail-iaith, ar gyfartaledd, yn ei defnyddio ychydig yn llai. Y prif rwystr i ehangu'r defnydd o'r Gymraeg yn y Dyffryn yw'r diffyg darpariaeth arbenigol. Yn dilyn i hyn, gellid credu, fel yn achos yr Wyddgrug, y byddai cryn ddefnydd ychwanegol ar y Gymraeg pe bai cynnydd yn ei statws a'r

gefnogaeth swyddogol ar ei chyfer.

2.2.10. Ymddangosai o'r data fod cefnogaeth gref yn Nyffryn Teifi ar gyfer ymyrraeth ieithyddol amlweddog. Credai mwyafrif y sampl gyfan y dylid ystyried y Gymraeg yn un o elfennau cynllunio gwlad a thref (69.9%) ac yr oedd cefnogaeth sylweddol i leihad treth i gwmnïoedd a fydd yn cynnig gwasanaethau dwyieithog (56.5%). O astudio atebion y cwestiynau hyn yn ôl grwpiau iaith, gwelwyd fod y cyfraddau cefnogol uchaf i'w cael yn achos siaradwyr iaith gyntaf ac i raddau is siaradwyr ail-iaith, ac yr oedd y grwpiau di-Gymraeg yn dueddol o gefnogi ychydig yn llai. Gellid dweud, felly, fod angen ymgyrch arbennig i ennill galonnau a meddyliau'r grŵp di-Gymraeg hwn os ydys am i'r ymgyrch adfer iaith gwmpasu'r gymuned gyfan.

2.2.11. Yn unol â'r hyn a gafwyd yn yr ardaloedd eraill a astudiwyd, nid oedd mwyafrif llethol yr atebwyr yn Nyffryn Teifi wedi clywed am fodolaeth llinellau cymorth ffôn Cymraeg.

2.2.12. Y mae seiliau cymunedol y Gymraeg yn Nyffryn Teifi yn gadarnach o lawer nag yn yr Wyddgrug; ond, er eu cadernid cymharol, maent yn wynebu bygythiadau lawer. Un o'r prif fygythiadau hyn yw'r mewnlifiad o deuluoedd ac unigolion di-Gymraeg i'r ardal. Nid yw mwyafrif mewnfudwyr y sampl o oedran ymddeol, ac y mae sawl un ohonynt wedi mudo o ardaloedd eraill yng Nghymru, ac nid yn unig o Loegr fel y credai rhai. Y mae'r gyfundrefn addysg yn gwneud ei gorau glas i Gymreigio plant mewnfudwyr, ond fel y gwelir droeon yn yr adroddiad llawn, y mae'r grŵp ail-iaith a gynhyrchir fel canlyniad yn tueddu i deimlo tipyn llai o berchnogaeth ar y Gymraeg nag y mae eu cyd-atebwyr iaith gyntaf. Y mae'r ffenomen ail-iaith ddiweddar hon yn cynnig her fawr i gynllunwyr polisi Dyffryn Teifi a mannau cyffelyb yng Nghymru.

2.2.13. Ffaith arall a allai beri gofid i'r rhai sy'n dymuno gwrthdroi dyfudiad cymunedol y Gymraeg yw cyfansymiau'r oedolion sy'n dysgu'r iaith. O boblogaeth ddi-Gymraeg o 153,042 yn yr hen Sir Dyfed, dim ond 2,606 (1.7% o'r boblogaeth ddi-Gymraeg) a gofrestrodd ar gyfer cyrsiau Cymraeg i Oedolion ym 1992-93 (y ffigurau diweddaraf). Ni wyddys faint yn union o'r grŵp hwn a ddaeth yn rhugl yn y Gymraeg ond gellid tybio mai lleiafrif bychan iawn ydoedd. Pwysleisir yn ein prif argymhellion yr angen i archwilio'n drwyadl i dynged ieithyddol dysgwyr.

2.2.14. Yr oedd Antur Teifi, mudiad a sefydlwyd ym 1980 i hybu datblygiad economaidd yr ardal, yn llwyddo i gyflwyno delwedd weddol

gadarnhaol i'r atebwyr - lleiafrif bychan yn unig (8.7%) a gredai fod yr Antur yn amherthnasol i anghenion y boblogaeth leol, ac yr oedd nifer fawr o'r farn y dylid fod naill ai'n gynllun hyfforddi i fentrwyr lleol neu'n gorff i gydlynu gwaith hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned. Ystyriwn hyn ymhellach yn yr adran nesaf.

2.2.15. Y mae sefyllfa'r Gymraeg yn Nyffryn Teifi ymhlith y bywiocaf yng Nghymru ond y mae o dan fygythiad amlweddog a pharhaus. *Y mae* modd adeiladu ar sylfeini ieithyddol cedyrn a'u sicrhau at y dyfodol drwy ymyrryd ym mhrosesau sosioieithyddol yr ardal, ac y mae rhai o'r camau a argymhellwn yn briodol nid yn unig i'r ardal hon ond i Gymru gyfan. Ni ddylid ystyried y newidiadau niweidiol sy'n digwydd i hynt y Gymraeg yn Nyffryn Teifi fel pethau anochel, ond yn hytrach fel her y mae'n rhaid ei hwynebu.

## 2.3. Cymoedd Gwendraeth ac Aman: Cwm Gwendraeth

Penderfynwyd ymdrin â Chwm Gwendraeth a Chwm Aman ar wahân er mwyn manteisio'n llawn ar gyfoeth amrywiol eu sefyllfaoedd ieithyddol ac er mwyn delio'n effeithiol â'r gwahaniaethau sosioeconomaidd a geir yn y cymoedd. Yn benodol, rhydd hyn gyfle i'r ymchwil ystyried effaith nifer o ffactorau ar ddatblygiad cymunedol mewn dwy ardal gyffelyb, yn enwedig effaith sefydlu Mentrau Iaith yn yr ardaloedd er mwyn ail-egnïo'r Gymraeg fel iaith gymunedol.

### Canlyniadau

Cyfansoddiad teuluol

- Yn y sampl, roedd y Gymraeg yn famiaith i 81%; yn ail-iaith i 12%, ac roedd 1% wedi dysgu'r Gymraeg yn oedolion; 94% o'r sampl felly a fedrai'r Gymraeg.
- Roedd 50% o'r sampl yn briod neu â chymar. O'r siaradwyr mamiaith a oedd â chymar, roedd 90% â phartner Cymraeg ei (h)iaith.
- Roedd 62% o'r sampl yn defnyddio'r Gymraeg yn unig ar yr aelwyd, gyda 14.5% arall yn defnyddio'r Gymraeg gan amlaf.

Dylid nodi i'r ymchwil ddarganfod fod yr uned deuluol yn gweithio'n weddol effeithiol fel asiant trosglwyddo'r iaith yng Nghwm Gwendraeth.

Sgiliau ieithyddol

- Datganodd 27% o'r sampl fod yn well ganddynt ysgrifennu yn

Gymraeg. Datganodd 46% o'r sampl fod yn well ganddynt ysgrifennu yn Saesneg. Y ffigyrau ar gyfer y siaradwyr mamiaith yw 33% (Cymraeg), a 35% (Saesneg). Datganodd 32% o'r sampl nad oedd gwahaniaeth ganddynt ym mha iaith yr ysgrifennant.

- Datganodd 12% o'r siaradwyr Cymraeg fod yn well ganddynt ddarllen yn Gymraeg yn unig neu gan amlaf. Datganodd 48% o'r un grðp fod yn well ganddynt ddarllen yn Saesneg yn unig neu gan amlaf.
- Nododd 71% o'r siaradwyr mamiaith fod eu Cymraeg ysgrifenedig yn eithaf da neu'n dda iawn, o'u cymharu â'r 89% o'r un grðp a nododd fod eu Saesneg ysgrifenedig yn eithaf da neu'n dda iawn.
- Mae hunanwerthusiad sgiliau siarad, gwrando, a darllen Cymraeg y grðp mamiaith yn arbennig o gadarnhaol; ar gyfartaledd roedd dros 86% yn honni fod y sgiliau hynny yn eithaf da neu'n dda iawn. Fodd bynnag, 71% a honnodd fod eu sgiliau ysgrifennu yn Gymraeg yn eithaf da neu'n dda iawn.
- Ar gyfartaledd, datganodd 92% o'r grðp mamiaith fod eu sgiliau Saesneg hefyd yn eithaf da neu'n dda iawn.

Peuoedd cymdeithasol a defnydd y Gymraeg

- Roedd mwyafrif llethol (80%+) o'r siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg am hanner yr amser neu fwy mewn 10 allan o'r 19 sefyllfa yr holwyd amdanynt. Mae'r 10 sefyllfa hyn yn cynnwys meysydd addysg, gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, y gweithle a'r llyfrgell.
- Datganodd llai na 60% o'r un grðp eu bod yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd gyda'r awdurdod lleol, cyfreithwyr, ac yn siopau'r dref.
- Byddai dros 80% o'r siaradwyr Cymraeg yn hapus i ddefnyddio'r Gymraeg mewn croestoriad o sefyllfaoedd cymdeithasol cyffredin pe bai modd iddynt wneud.
- Barnodd 71% o'r siaradwyr Cymraeg fod diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn mennu ar eu hawliau fel dinasyddion. Yn ogystal, nododd 68% o'r rhain fod y diffyg hwn yn effeithio ar eu hunan-hyder wrth ddefnyddio'r iaith yn gyhoeddus, ac ar eu mwynhad o fywyd yn achos 70%.

## Casgliadau

2.3.1. Y mae rhai canlyniadau a gafwyd o Gwm Gwendraeth yn ddigon tebyg i'r rheiny a gafwyd o'r ardaloedd eraill a astudiwyd: dangosant gefnogaeth sylweddol a chref i'r Gymraeg, ond hefyd rai problemau y bydd angen eu datrys os ydys am i'r mudiad cynllunio ieithyddol lwyddo'n llwyr.

2.3.2. Fel yn yr ardaloedd eraill, barnodd y siaradwyr Cymraeg fod eu pedair sgil graidd (darllen, deall, ysgrifennu a siarad) yn well yn y Saesneg nag yr oeddynt yn y Gymraeg. Er gwaethaf y cymhlethdod israddoldeb ieithyddol a awgrymir gan y canlyniad hwn, gwelwyd fod trosglwyddiad ieithyddol rhwng y cenedlaethau yn digwydd yn weddol ddiogel yn y sampl, ond nid yn hollol ddidrafferth, oherwydd pwysedd parhaol y Saesneg.

2.3.3. Er i'r atebwyr ddatgan fod eu sgiliau craidd yn well yn y Saesneg nag yn y Gymraeg, ymddengys nad yw hyn yn cael cymaint â hynny o effaith arnynt - nid oedd y mwyafrif sylweddol ohonynt yn cael trafferth i wneud nifer o wahanol bethau yn y Gymraeg a byddai'r mwyafrif ohonynt (80%) yn dewis defnyddio'r Gymraeg, neu yn dweud nad oedd gwahaniaeth ganddynt pa iaith a ddefnyddient, mewn rhestr o sefyllfaoedd cymdeithasol amrywiol. Argoela hyn yn dda ar gyfer defnydd pellach o'r Gymraeg yn y Cwm ac adlewyrcha'r bywiogrwydd ieithyddol iach sydd i'w gael yno. Mater pwysig i gynllunwyr ieithyddol yr ardal ar y lefel gymunedol yn sefydliadau lu'r ardal, wrth gwrs, yw darparu'r cyfleoedd hynny i drigolion y Cwm. Y mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n helaeth iawn yng Nghwm Gwendraeth, ond nid yw ei defnydd presennol yn adlewyrchu'r patrymau hoffter ieithyddol a ddarganfuwyd. Y mae diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth yn effeithio ar y boblogaeth yn fawr. Unwaith yn rhagor, noda mwyafrif y siaradwyr Cymraeg (71%) fod y diffyg yn mennu ar eu hawliau fel dinasyddion.

2.3.4. Y mae arwyddion pellach o gryfder yr ewyllys o blaid y Gymraeg i'w gweld yn yr 80%+ o'r sampl a gredai y dylai pawb sy'n delio â'r cyhoedd yn y cyngor lleol siarad Cymraeg neu gytuno i'w dysgu; cefnogai nifer debyg hysbysebu dwyieithog yn yr ardal (84%) a chredai nifer fawr (66%) y dylai cwmnïoedd dderbyn lleihad ar eu biliau treth pe gynigant wasanaethau yn y Gymraeg.

2.3.5. Fel yn yr ardaloedd eraill, dywedodd mwyafrif yr atebwyr Cymraeg eu hiaith y defnyddient fwy ar y Gymraeg pe cynigid cyfleoedd ychwanegol iddynt, ond wrth reswm, fel y gwelwyd yn achos yr Wyddgrug, y mae'n rhaid i'r dewis hwnnw fod ar gael yn rhwydd ac yn amlwg - gwelir hyn yn achos llinellau ffôn dwyieithog nad oedd 87.1% o'r sampl yn ymwybodol o'u bodolaeth a neb yn gwybod eu rhif.

2.3.6. Credai mwyafrif y sampl y dylai'r Gymraeg gynyddu yn y gymuned yng Nghwm Gwendraeth ac ymddengys fod y mudiad a sefydlwyd i'r perwyl hwnnw yn cael effaith gadarnhaol ar yr atebwyr. Maent bron yn

unfryd eu barn (96%) y dylai Menter Cwm Gwendraeth fwrw ati i ehangu'i gwaith. Yr oedd mwyafrif y sampl (60%) wedi mynychu gweithgareddau'r Fenter dros y flwyddyn cyn eu holi ac yr oedd consensws ei bod yn gwasanaethu ystod oedran eang.

2.3.7. Y mae natur ieithyddol Cwm Gwendraeth yn fwy hunangynhaliol nag eiddo Cwm Aman. Yno, y mae datblygiadau diweddar fel traffordd yr M4 wedi caniatáu cymudo heb yr allfudo parhaol sy'n niweidiol i'r iaith; ond, wrth gyfweld, yr oedd awgrym fod yr hygyrchedd newydd hwn ar fin denu trigolion newydd di-Gymraeg i'r ardal. Y mae'r hunan-gynhaliaeth hon wedi caniatáu i fwrlwm ieithyddol ac i'r broses o feithrin arweinwyr cymunedol aeddfedu, ac o ganlyniad, y mae potensial mawr iawn am ddyfodol y Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth os dyfnheir ac os ehangir yr ymyrraeth yma. Y mae Menter Cwm Gwendraeth yn fudiad dylanwadol sydd wedi ennill hyder y gymuned i raddau helaeth, ac wedi llwyddo i adennill parch y trigolion yn eu hiaith. Mawr obeithiwn y gwelwn ehangu ar y gwaith clodwiw hwn i sectorau eraill ac y gwelir agwedd adeiladoltuag at y Gymraeg yn treiddio i'r Cwm drwyddo draw - o'r sector hamdden i'r sector preifat.

## Cymoedd Gwendraeth ac Aman: Cwm Aman

## Canlyniadau

Cyfansoddiad teuluol

- Yn y sampl, roedd y Gymraeg yn famiaith i 76%; yn ail-iaith i 11.5%, ac roedd 2% wedi dysgu'r Gymraeg yn oedolion; 89.5% o'r sampl felly a fedrai'r Gymraeg.
- Roedd 75.5% o'r sampl yn briod neu â chymar.
- Roedd 40% o'r sampl yn defnyddio'r Gymraeg yn unig ar yr aelwyd, gyda 21% arall yn defnyddio'r Gymraeg gan amlaf. Nododd 12% eu bod yn defnyddio'r ddwy iaith yn gyfartal.

Dylid nodi i'r ymchwil ddarganfod fod yr uned deuluol yn gweithio'n llai effeithiol fel asiant trosglwyddo'r iaith yng Nghwm Aman nag yng Nghwm Gwendraeth.

Sgiliau ieithyddol

- Datganodd 22% o'r sampl fod yn well ganddynt ysgrifennu yn Gymraeg. Datganodd 54% o'r sampl fod yn well ganddynt ysgrifennu

yn Saesneg. Datganodd 24% y byddai'n well ganddynt ddefnyddio'r ddwy iaith yn gyfartal.
- Nododd 61% o'r siaradwyr Cymraeg fod eu Cymraeg ysgrifenedig yn eithaf da neu'n dda iawn, o'u cymharu â'r 89% o'r un grðp a nododd fod eu Saesneg ysgrifenedig yn eithaf da neu'n dda iawn.
- Ar gyfartaledd roedd dros 76% o'r siaradwyr Cymraeg yn honni fod eu sgiliau siarad, gwrando, a darllen yn y Gymraeg yn eithaf da neu'n dda iawn. Honnodd 61% fod eu sgiliau ysgrifennu yn Gymraeg yn eithaf da neu'n dda iawn.
- Ar gyfartaledd, datganodd 92% o'r siaradwyr Cymraeg fod eu sgiliau Saesneg hefyd yn eithaf da neu'n dda iawn.

<u>Peuoedd cymdeithasol a defnydd y Gymraeg</u>

- Roedd mwyafrif y siaradwyr Cymraeg (73%) yn defnyddio'r Gymraeg am hanner yr amser neu fwy yn y 19 sefyllfa yr holwyd amdanynt. Cadarnleoedd cymdeithasol y Gymraeg yng Nghwm Aman oedd maes addysg a'r llyfrgell leol, ond yn ogystal fe ddefnyddid y Gymraeg yn helaeth yn y gweithle, ac wrth dderbyn rhai gwasanaethau o'r sector iechyd a'r sector gwasanaethau.
- Nid oedd y Gymraeg yn cael ei defnyddio gymaint gan ddarparwyr allweddol yn y sector iechyd, megis deintyddion a meddygon, nac wrth i bobl ddelio â'r awdurdod lleol na chyfreithwyr.
- Byddai dros 78% o'r siaradwyr Cymraeg yn croesawu'r cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg mewn croestoriad ehangach o sefyllfaoedd cymdeithasol cyffredin pe bai modd iddynt wneud.
- Barnodd 59% o'r siaradwyr Cymraeg fod diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn mennu ar eu hawliau fel dinasyddion. Yn ogystal, nododd 56% o'r rhain fod y diffyg hwn yn effeithio ar eu hunan-hyder wrth ddefnyddio'r iaith yn gyhoeddus, ac ar eu mwynhad o fywyd yn achos 53%.

## Casgliadau

2.4.1. Yn y gorffennol, bu Cwm Aman yn un o gadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg yn Ne Cymru. Ond, erbyn heddiw, y mae natur y gymuned yn y Cwm wedi newid, ac o'r herwydd, y mae'n wynebu nifer o fygythiadau - ond bygythiadau tra gwahanol i'r rheiny a wynebir gan yr Wyddgrug a Dyffryn Teifi. Nid newidiadau o'r tu allan megis effaith y ffin â Lloegr neu bwysedd mewnfudo mo'r rhain, ond dirywiad ieithyddol o du'r gymuned ei hunain sy'n deillio o'r sefyllfa sosio-economaidd ddifreintiedig. O'r herwydd, cydnabyddwn fod yr her i Fenter Aman Tawe dipyn yn anos nag

ydyw i Fenter Cwm Gwendraeth. Gweler isod brif nodweddion y dirywiad hwn:

- Y mae'r Gymraeg yn edwino'n sylweddol yng Nghwm Aman o ganlyniad i ddiffyg trosglwyddiad iaith rhwng y cenedlaethau.
- Y mae dad-ddiwydiannu wedi effeithio ar y sefyllfa sosioieithyddol drwy beri allfudo o'r Cwm gan bobl ifainc yn arbennig.
- Ceir prinder arweinwyr cymdeithasol cynhenid.

2.4.2. Ar raddfa ranbarthol, adlewyrcha hyn gyfnod diweddar y broses o ddisodli'r Gymraeg a ddechreuwyd yng Nghymru yn ail hanner y ganrif ddiwethaf, proses sydd wedi parhau hyd heddiw.

2.4.3. Gwelir y prif reswm am wanhau'r Gymraeg wrth ystyried y gwahaniaeth enfawr rhwng yr ifanc a'r to hþn, hynny yw, y gwahaniaeth rhwng canran isel y siaradwyr mamiaith yn y carfanau oedran 3-15 (29%) o'i chymharu â chanran uchel y rheiny sydd rhwng 45-64 (77%). Yn yr un modd, nifer y siaradwyr rhugl rhwng 3-15 oed yn y Cwm yw 45% ond yn y grðp oedran 45-64 y mae'r canran yn uwch o lawer (73%). Gwyddom fod y gyfundrefn addysg wedi'i hystyried fel prif gynhaliwr yr iaith yn yr ardal gan ei bod yn darparu cyfleoedd i Gymreigio pobl ifainc yn arbennig. Heddiw, nid yw'r berthynas ieithyddol glòs a fu rhwng yr aelwyd a'r ysgol bellach mor gref. Y mae'n amlwg fod nifer o'r rhieni Cymraeg eu hiaith yn y sampl yn defnyddio mwy ar y Saesneg i gyfathrebu â'u plant nag y gwnânt ar y Gymraeg gan nad oedd 71% o holl blant 5-11 oed y Cwm yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd. Anodd credu y bydd y 29% arall sydd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd - y bau fwyaf sylfaenol oll - yn ddigon cadarn i lwyr-atgynhyrchu diwylliant Cymraeg Cwm Aman. Er dweud hyn, y mae rhai arwyddion cadarnhaol, yn enwedig os ystyrir effaith gynyddol y system addysg.

2.4.4. Y mae effaith bendant addysg Gymraeg yn hollol amlwg yma, fel y mae yn ardaloedd fel yr hen Forgannwg Ganol. Un arwydd yw'r cynnydd o 16% o'r garfan o blant 5 oed ym 1993 i 33% o'r un garfan a oedd yn rhugl erbyn Ionawr 1996. Ni ddylid, serch hynny, gorddibynnu ar y gyfundrefn addysg er mwyn adfywio bywyd cymunedol Cymraeg cyflawn, cyfoethog. Er mwyn i'r Gymraeg adennill ei thir, yn enwedig y tu allan i furiau ysgol a choleg, rhaid wrth lawer mwy o ddarpariaeth gymdeithasol. Y mae'n amlwg fod peuoedd yn cael eu rheoli gan unigolion dylanwadol ac y mae dwyieithrwydd yn rhinwedd y dylid ei hannog a'i chryfhau, yn enwedig wrth gofio bod cynifer o swyddi allweddol fel meddygon a chyfreithwyr yn denu siaradwyr uniaith Saesneg i fröydd â dwysedd uchel o siaradwyr

Cymraeg. Er mwyn gwneud hyn, rhaid darparu'n sylweddol ar gyfer dysgu ail-iaith effeithiol. Felly, argymhellwn fod strategaethau i adfywio'r Gymraeg fel iaith gymunedol yn pwyso ar gyrff proffesiynol i gynnig hyfforddiant ieithyddol 'mewn swydd' cynhwysfawr ar gyfer eu staff.

2.4.5. Fodd bynnag, nid dysgu'r Gymraeg yn unig y mae angen ei wneud yn y fro hon, ond sicrhau ei defnydd parhaol mewn gweinyddiaeth fewnol cyrff cyhoeddus ac wrth ymdrin â'r cyhoedd. Y mae dysgu a defnyddio iaith yn ddwy broses eithaf gwahanol. Mewn gwledydd eraill â hanes o gynllunio ieithyddol, er enghraifft Canada a Gwlad y Basg, cafwyd mwy o frwdfrydedd weithiau ymysg gweision sifil a gweithwyr proffesiynol i ddysgu'r ail-iaith nag yr oedd i'w defnyddio'n effeithiol. Felly, y mae angen cryn sylw ar sut y mae cymhwyso ffrwyth y broses ddysgu ail-iaith i'r gweithle. Hyd yn hyn, ar *ddysgu* y bu'r pwyslais pennaf. Yn awr, dylid rhoi pwyslais cyfartal ar *ddefnyddio'r* Gymraeg ac ar effaith cymdeithasoli ysgolion.

2.4.6. Y mae'n amlwg fod dirwasgiad economaidd yng Nghwm Aman wedi cyfrannu at y broses allfudo sy'n gwanhau'r gronfa botensial o arweinwyr cymdeithasol.

2.4.7. Yn debyg i Gwm Gwendraeth, y mae arwyddion o gryfder yr ewyllys o blaid y Gymraeg i'w gweld yn yr 85% o'r sampl a gredai y dylai pawb sy'n delio â'r cyhoedd yn y cyngor lleol siarad Cymraeg neu gytuno i'w dysgu, a'r 78% a gefnogai hysbysebu dwyieithog yn yr ardal. Credai nifer fawr (65%) y dylai cwmnïoedd dderbyn lleihad ar eu biliau treth er mwyn iddynt gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg, gyda 73% arall yn cefnogi ymgorffori'r Gymraeg yn elfen ym myd cynllunio gwlad a thref.

2.4.8. Dywedodd mwyafrif yr atebwyr Cymraeg eu hiaith y defnyddient fwy ar y Gymraeg pe cynigid cyfleoedd ychwanegol iddynt.

2.4.9. Yr oedd cefnogaeth gref ar gyfer y syniad o gynnig gwersi gloywi iaith yng Nghwm Aman, ac ar gyfer darpariaeth i ail-egnïo'r "Cymry Cymraeg cudd" hynny sy'n deall, ond nad ydynt yn siarad y Gymraeg am ba reswm bynnag. Byddai dros hanner y sampl yn croesawu canolfan Gymraeg barhaol yn yr ardal.

2.4.10. Cydnabyddwn fod y pwyslais ar weithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliant poblogaidd sy'n nodweddiadol o arddull weithio Menter Aman Tawe wedi cyfrannu at gryfhau datblygiad cymunedol y Gymraeg. Ond y mae'n hysbys hefyd na fydd y gweithgareddau hynny'n

ddigonol heb ymyrraeth economaidd gyfochrog gan asiantaethau eraill, er enghraifft yr awdurdodau lleol ac Awdurdod Datblygu Cymru.

## 2.5. Prif Ddarganfyddiadau'r Gwaith Maes

2.5.1. Mae tynged y Gymraeg yn dibynnu ar fwy o lawer nag ar gynnydd yn nifer y bobl sy'n gallu ei siarad. Mae hi hefyd yn dibynnu ar fywiogrwydd y diwylliant a drosglwyddir. Yng nghadarnleoedd y Gymraeg, mae'n glir na fydd y tir a gollwyd gan y Gymraeg yn cael ei adennill onid ymgorfforir yr iaith ym mhob agwedd ar fywyd. Y mae normaleiddio'r Gymraeg yn arwain at ei defnydd fel dewis iaith naturiol mewn nifer o sefyllfaoedd, yn enwedig wrth ymwneud â'r tasgau beunyddiol cyfarwydd sydd mor seicolegol bwysig i gynyddu hyder a newid arferion. Hanfod adfywio'r Gymraeg fel iaith gymunedol yw sicrhau ymdeimlad o gyfrifoldeb drosti gan bawb sy'n gallu ei siarad. Mae'r gwaith maes yn dangos fod yna duedd gan rai i gredu mai rôl asiantaethau swyddogol yn unig yw gweithredu dros yr iaith, ac o'r herwydd maent yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb o'u dwylo hwy, ac felly'n gwanhau perchnogaeth y gymuned ar y broses o adfywio'r iaith.

2.5.2. Rhaid nodi fod nifer y peuoedd y defnyddir y Gymraeg ynddynt wedi cynyddu'n sylweddol dros y 30 mlynedd diwethaf, yn enwedig ym myd addysg, y cyfryngau, adloniant a rhai gwasanaethau cyhoeddus. Serch hynny, rhaid nodi fod dylanwad y Saesneg wedi dwysáu, yn bennaf oherwydd newidiadau arwyddocaol o ran technoleg newydd. Hyd oni cheir buddsoddiad sylweddol er mwyn darparu is-strwythur cynhaliol effeithiol i'r Gymraeg bydd gallu'r unigolyn i ddewis defnyddio'r Gymraeg mewn peuoedd allweddol fel y gweithle ac wrth gynnal busnes beunyddiol yn crebachu. Nid yw hon yn broblem sy'n wynebu'r Gymraeg yn unig, mae'n nodweddiadol o bob iaith lai ei defnydd.

2.5.3. Y cartref a'r gyfundrefn addysg sydd bellach yn rhannu'r dasg o feithrin siaradwyr newydd, yn hytrach na'r gymuned. Daeth yn amlwg o'r canlyniadau fod diffyg trosglwyddo ieithyddol rhwng y cenedlaethau yn dal i ddigwydd yn yr ardaloedd a archwiliwyd. Un o'r rhesymau dros hyn yw'r cynnydd yn niferoedd y Cymry Cymraeg sy'n dewis partner di-Gymraeg. Ni ellid cymryd yn ganiataol mai'r Gymraeg fyddai prif iaith y teulu; yn wir, mae cryn dipyn o dystiolaeth i ddadlau mai Saesneg fyddai'r iaith a ddefnyddir ar yr aelwyd. Serch hynny, ni ellir priodoli diffyg trosglwyddiad iaith i'r aelwyd yn unig, ond yn hytrach i newidiadau cymdeithasol ehangach. Un o'r newidiadau amlwg yw'r lleihad yn apêl y rhwydweithiau diwylliannol traddodiadol a gynhaliai'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol a'r

cartref. Yn ogystal, mae lleihad yn y cyfleoedd naturiol i blant a phobl ifanc gymdeithasu â'i gilydd a chydag ystod eang o oedolion y tu allan i'r teulu agos. Adlewyrcha hyn y ffragmenteiddio cymdeithasol a welwyd ers y 60au. Dyma'r brif her y mae angen ei hwynebu â hi os ydys am sicrhau dyfodol y Gymraeg yn ein cymunedau.

2.5.4. Un modd o wneud hyn yw trosglwyddo'r syniad a geir mewn ambell i wlad arall o drefnu gweithgareddau mewn canolfan gymunedol neu hamdden lle bydd y to hynaf yn siarad yr iaith leiafrifol â phlant ifanc yr ardal, a thrwy wneud hynny geisio adennill yr ifainc i'r iaith. Yn y man, y gobaith yw y bydd rhieni'r plant hyn, sef y lled-siaradwyr y cyfeirir atynt yn aml yn yr adroddiad llawn yn ailafael yn yr iaith hefyd. Dyma wir ystyr iaith gymunedol, fel a glywir nifer yn adrodd, sef "nid siarad am yr iaith ond siarad yn yr iaith ar bob achlysur posibl". Ar hyn o bryd, y mae perygl ein bod yn gorddiffinio'r grwpiau targed yn ôl oedran ac, o'r herwydd, yn colli'r cyfle i ddenu pawb i rannu Cymreictod cymunedol.

2.5.5. Cafwyd llawer o dystiolaeth fod y cyhoedd yn ymateb yn ffafriol i gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg lle cynigir dewis hwylus ac amlwg iddynt wneud hynny. Er enghraifft, y mae patrymau dewis y Gymraeg wrth ymdrin ac wrth ddelio â pheiriannau twll-yn-y-wal y banciau a chymdeithasau adeiladu yn gymharol uchel oherwydd gofynnir yn benodol i'r defnyddiwr ddewis iaith. Lle nad yw'r dewis hwn yn cael ei gynnig yn amlwg, a lle mae'n rhaid i'r defnyddiwr chwilio am wasanaeth Cymraeg (fel yn achos llinellau cymorth iaith Gymraeg *BT* ), ni fanteisiwyd ar y cyfryw gyfleoedd a gynigwyd. Mae cynnig dewis iaith felly'n dyngedfennol i gynyddu defnydd o'r Gymraeg.

2.5.6. Gwelwyd fod diffyg arfer defnyddio'r iaith, ac roedd hyn i ryw raddau'n deillio o ddiffyg cyfleoedd neu o amharodrwydd yr unigolyn i ddewis defnyddio'r Gymraeg. Mae sawl ffactor yn effeithio ar hyn. Yn aml, profiad gwael ddefnyddio'r iaith neu dderbyn gwasanaeth cyfrwng Cymraeg o radd is a oedd yn gyfrifol am gyflyru nifer i ddewis y Saesneg yn hytrach na'r Gymraeg. Ffactor arall oedd canfyddiad siaradwyr Cymraeg fod eu sgiliau ieithyddol yn ddiffygiol, yn enwedig mewn sefyllfaoedd ffurfiol. Mae hyn oll yn cyfrannu at ddiffyg hyder ymysg pobl o bob oedran i fentro defnyddio'r Gymraeg yn hytrach na'r Saesneg, hyd yn oed mewn peuoedd newydd lle mae'r dewis ar gael erbyn heddiw.

2.5.7. Yr oedd yr atebwyr fel arfer yn graddio'u gallu yn y pedair sgil craidd (deall, siarad, darllen, ysgrifennu) ychydig yn uwch yn y Saesneg nag yn y Gymraeg. Priodolwn hyn i ddiffyg arfer defnyddio'r iaith, ymateb rhai i'w

profiad o'r gyfundrefn addysg, diffyg darpariaeth ddwyieithog yn y gymuned, ac effaith gynyddol y Saesneg ar y gymdeithas Gymraeg. Nododd nifer o atebwyr deimladau o israddoldeb ynghylch eu gallu ieithyddol yn y Gymraeg, yn enwedig o'i gymharu â iaith 'safonol' y cyfryngau.

2.5.8. Cafwyd tystiolaeth fod cryn dipyn o gonsýrn ynglþn ag effaith andwyol mewnlifiad i gymunedau Cymraeg o siaradwyr uniaith Saesneg ac ar ddylanwad unigolion allweddol pwysig megis meddygon, gweinidogion, ymwelwyr iechyd a rheolwyr, ar arferion defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Yn ogystal, roedd galw am ystyriaeth newydd o'r broses gynllunio statudol er mwyn diogelu sefyllfa'r Gymraeg yn y gymuned.

2.5.9. Yn y peuoedd hynny lle y bu buddsoddiad ieithyddol yn y gorffennol, er enghraifft, byd addysg, ac i raddau llai darpariaeth y sector cyhoeddus, mae parodrwydd ac awydd i ddal ar y cyfle i ddefnyddio'r iaith. Ein prif ddarganfyddiad yw bod ewyllys y cyhoedd yn ffafrio ymestyn dwyieithrwydd yn y gymuned. Nid oes amheuaeth bod gwir gefnogaeth i'r Gymraeg a chredwn mai elfen gynyddol yw hon. Ond, er mwyn gwireddu eu hawliau ieithyddol trwy gynnig dewis, rhaid wrth lawer mwy o ddarpariaeth effeithlon. Yn draddodiadol, yr oedd y pwyslais ar gynyddu'r niferoedd a oedd yn siarad Cymraeg, ac mae hyn yn dal i fod o'r pwys mwyaf. Ond yn ogystal â hynny, mae'n bryd mabwysiadu arferion gwaith dwyieithog sy'n effeithlon ac yn ddeniadol i'r cyhoedd. Oni wneir hyn, hunan-dwyll yw'r brwdfrydedd diweddar dros gryfhau statws y Gymraeg. Crybwyllir y sefyllfaoedd mwyaf ffrwythlon y gellid cynyddu'r Gymraeg ynddynt yn yr adroddiad llawn.

2.5.10. Ar y cyfan, yr oedd agweddau'r cyhoedd yn arbennig o ffafriol dros gynyddu darpariaeth ddwyieithog yn y meysydd canlynol:

- ym myd hysbysebu;
- wrth ymgorffori buddiannau'r Gymraeg i fyd cynllunio gwlad a thref;
- wrth hybu'r Gymraeg ym myd busnes;
- yn y gweithle'n gyffredinol.

2.5.11. Nid oedd y siaradwyr ail-iaith bob tro'n teimlo'n rhan o'r rhwydweithiau Cymraeg a oedd ar gael. Datganodd rhai a oedd yn ceisio dysgu'r iaith ei bod yn anodd cael eu derbyn gan siaradwyr rhugl, ac felly teimlent eu bod yn cael eu heithrio o'r gymuned Gymraeg.

2.5.12. Mae'r potensial i gynyddu defnyddio'r Gymraeg yn sylweddol; ac fe

groesawir hyn gan fwyafrif llethol y sampl. Yn yr un modd, mae'r potensial i gynyddu'r cyfleoedd newydd i ddefnyddio'r iaith hefyd yn uchel. Rhaid nodi fod y data'n dangos anghysondeb ar hyn o bryd rhwng dyheadau amlwg yr atebwyr i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg a'u dewisiadau ymarferol beunyddiol. Ymddengys y byddai'r defnydd o'r iaith yn cynyddu gan siaradwyr Cymraeg - ar draws holl ystod eu gallu ieithyddol - pe darperid cyfleoedd ar eu cyfer, a gellid ennill siaradwyr newydd i'r iaith pe gwneid hynny.

2.5.13. Hyd yma ni wireddwyd potensial y Gymraeg ym myd busnes. Cafwyd tystiolaeth fod prinder darpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn llesteirio'i defnydd, yn enwedig mewn swyddfeydd, ac wrth ymwneud â'r sector cyhoeddus.

2.5.14. Mae'n glir, felly, fod nifer o ffactorau yn effeithio ar lefel defnyddio'r Gymraeg gan drigolion yr ardaloedd dan sylw, er bod yn rhaid nodi wrth reswm nad yw'r un problemau yn wynebu pob cymuned. Serch hynny, dylid ystyried i ba raddau y byddai'n ddymunol ceisio dylanwadu ar y ffactorau hyn er mwyn newid patrymau defnyddio iaith drwy ymyrryd mewn rhyw fodd ym mhrosesau naturiol y gymuned. Awn ati yn yr adran nesaf i drafod effaith ymyrraeth ieithyddol gan ystyried profiadau o'r fath ymyrraeth yn Nyffryn Teifi ac yng Nghymoedd Gwendraeth ac Aman. Trafodir hefyd effaith peidio ag ymyrryd â'r sefyllfa ieithyddol a gadael i brosesau normaleiddio'r iaith fynd rhagddynt, sef sefyllfa'r Wyddgrug.

▲ Top

# 3. Ymyrraeth Ieithyddol: Ymyrraeth Effeithiol?

## 3.1. Yr Wyddgrug

3.1.1. Mae'r Wyddgrug yn adlewyrchu sefyllfa ddigon cyffredin yng Nghymru gan mai dim ond rhyw 20% sy'n siarad Cymraeg yno. Serch hynny, mae'r ardal hefyd yn arbennig oherwydd ei bod yn agos iawn at y ffin â Lloegr ac, o ganlyniad, mae'n rhannu llawer o nodweddion economi a bywyd cymdeithasol Caer, Lerpwl a gogledd-orllewin Lloegr. Mae'r cyd-destun daearyddol hwn yn lliwio nifer o agweddau a phosibiliadau, gan gynnwys yr hyn a ystyrir i fod y 'ffordd Gymreig o fyw'.

3.1.2. Ar y naill law, oherwydd ei statws fel canolfan weithredol yr hen sir

Clwyd, ceir nifer fawr o weithwyr proffesiynol yn ardal yr Wyddgrug, yn arbennig athrawon a gweithwyr y sector cyhoeddus. Mae twf addysg Gymraeg wedi bod yn llwyddiant yma, ond yr un hen stori a glywir, h.y. bod diffyg cyfle i ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r ysgol. Felly, rhaid sicrhau dilyniant o ran cyfleoedd er mwyn effeithio ar batrymau defnyddio'r iaith mewn peuoedd sy'n apelio at yr ifanc.

3.1.3. Ar y llaw arall, diwylliant Saesneg sydd fwyaf blaenllaw ymysg dosbarth gweithiol yr ardal a Glannau Dyfrdwy yn gyffredinol, ac, o'r herwydd, Saesneg yn bennaf a ddefnyddir wrth chwarae, wrth hamddena, wrth siopa ac wrth ddelio â "chyfundrefn", a hynny am sawl rheswm:

- oherwydd eu sefyllfa fel lleiafrif mae llawer o'r siaradwyr Cymraeg yn oddefol iawn;
- mae'r boblogaeth mor gymysg fel ei bod hi'n anodd gwybod pwy sy'n perthyn i ba rwydweithiau a charfanau am fod yn yr ardal gynifer o "Gymry Cymraeg cudd", hynny yw, y rheiny nad ydynt yn rhan o'r rhwydweithiau Cymraeg cyfredol;
- rhwydweithiau a gweithgareddau Cymraeg traddodiadol iawn a geir yma e.e. dramâu, cyngherddau, eisteddfodau, capeli, pwyllgorau, oedfaon, cymdeithasau Cymraeg, dosbarthiadau nos, cylchoedd cinio, gwyliau Cerdd Dant;

3.1.4. Ar un lefel, y mae'r Gymraeg wedi dal ei thir yn wyrthiol yn ardal yr Wyddgrug yn wyneb canrifoedd o ddylanwad y Saesneg ac agosatrwydd at y ffin â Lloegr. Diogelwyd y sefyllfa hyn gan fewnlifiad gweddol gyson o'r cymunedau cryf eu Cymraeg yng Ngogledd Cymru. Mae'r rhwydweithiau sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg yn y cylch yn niferus ac wedi eu hirsefydlu. Fodd bynnag, nid yw'r rhwydweithiau hyn yn llwyddo i ddenu holl rychwant y boblogaeth Gymraeg a'r mwyafrif di-Gymraeg fel ei gilydd. Mae ysgolion dwyieithog y cylch wedi llwyddo i gynhyrchu miloedd lawer o siaradwyr newydd, ond ni wireddir eu llawn botensial oherwydd nad yw'r cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r ysgolion wedi esblygu i'r un graddau ag y mae'r gyfundrefn addysg ddwyieithog ei hunan. Gallai'r twf hwn yn y niferoedd sy'n medru'r iaith fod wedi arwain at nifer o rwydweithiau Cymraeg newydd yn yr ardal; fodd bynnag, nid yw hyn wedi digwydd i raddau helaeth, ac nid yw'n debygol o ddigwydd oni cheir asesiad llawn o botensial y Gymraeg yn y gymuned ac ymyrraeth benodol. Teg gofyn, felly, a ydym wedi cael ein boddhau gan y cynnydd yn nifer y disgyblion Cymraeg eu hiaith, heb ystyried y goblygiadau cymdeithasol ehangach? Wrth reswm, mae'r methiant i wireddu potensial y

Gymraeg yn yr Wyddgrug a'r pwyslais dealladwy ar y gyfundrefn addysg ddwyieithog yn wir hefyd am nifer o ardaloedd eraill yng Nghymru.

3.1.5. Credwn y gallwn fod ar drothwy cyfnod newydd yn nefnydd cymdeithasol y Gymraeg. Mae datblygiadau cenedlaethol yn statws yr iaith a'i defnydd mewn mwy o beuoedd nag erioed o'r blaen yn sicr o effeithio ar sefyllfa siaradwyr Cymraeg yr Wyddgrug fel unigolion. Ond, er mwyn sicrhau perthnasedd yr iaith fel iaith gymunedol weithredol, mae'n hanfodol bwysig ein bod yn buddsoddi mewn is-strwythur lleol a fydd yn ei chynnal yn effeithiol. Ceir yn yr Wyddgrug sefyllfa sydd yn wrthwyneb i'r hyn sy'n nodweddiadol o ardaloedd traddodiadol diwydiannol, er enghraifft, Cwm Aman. Mae yn yr Wyddgrug ddigon o arweinwyr cymdeithasol, boed rheiny'n athrawon, darlithwyr, gweision sifil, gweinidogion ac yn y blaen. Yn anffodus, ymddengys nad yw'r rhwydweithau y maent yn eu cynnal yn apelio at yr ifanc nac at y "Cymry Cymraeg cudd".

3.1.6. Oni cheir ymyrraeth ieithyddol y *status quo* a geir ac ni fydd y Gymraeg yn cyrraedd ei llawn botensial. Heb ryw fath o ymyrraeth neu weithgaredd ychwanegol, yn arbennig ymhlith yr ifanc, bydd tuedd i fodloni ar drosglwyddo iaith yn unig, ac nid trosglwyddo diwylliant cyflawn, yn yr Wyddgrug. Annheg, felly, fyddai disgwyl i'r system addysg ddod yn "iachawdwr ieithyddol" heb unrhyw gynhaliaeth allanol sylweddol o du'r gymuned.

3.1.7. Mae'r potensial i sefydlu corff o ryw fath i hyrwyddo'r Gymraeg yn weddol uchel yma. Gallai'r fath sefydliad ddiwallu'r angen i greu cyfleoedd cymdeithasu, yn enwedig ymhlith yr ifanc. Dengys y data y byddai croeso mawr i sefydliad a fyddai'n ail-egnïo'r Gymraeg yn yr Wyddgrug ar y lefel gymunedol leol, i gwrdd â'r newidiadau y mae deddfwriaeth a'r farn gyhoeddus yn eu creu'n raddol fach ar y lefelau eangach. Gallai sefydliad o'r fath fod yn hwb mawr i ddwyieithrwydd, yn ffordd dda o harneisio'r potensial a grybwyllwyd uchod, ac - o'i weinyddu'n grefftus - yn ffordd o bontio rhwng carfanau ieithyddol y gymuned, boed eu haelodau'n fewnfudwyr neu'n frodorion.

3.1.8. Dylai'r fath sefydliad drefnu gweithgareddau i groesawu trwch y boblogaeth i'r gymuned Gymraeg er mwyn dileu anwybodaeth a drwgdybiaeth sosioieithyddol. Y mwyafrif diGymraeg sydd ac a fyddai'n dylanwadu ar arfer defnyddio'r iaith yn y gymuned ac ar lunio polisïau lleol oherwydd hwy fydd:

- partneriaid tebygol y siaradwyr Cymraeg;

- trwch rhieni'r presennol a'r dyfodol;
- cwsmeriaid a chydweithwyr gwasanaethau dwyieithog y dyfodol;
- pleidleiswyr, trethdalwyr a dinasyddion y presennol a'r dyfodol.

3.1.9. Trafodir yn ddiweddarach yn y Crynodeb hwn ddulliau ymarferol o ymyrryd yn ieithyddol yn yr Wyddgrug ac mewn ardaloedd eraill tebyg iddi yng Nghymru.

**3.2. Dyffryn Teifi**

3.2.1. Yn achos Dyffryn Teifi, ymyrraeth o fath economaidd a gafwyd hyd yn hyn, er bod cymhellion ieithyddol a chymunedol ymhlith y prif ffactorau a'i sbardunodd yn y lle cyntaf. Sefydlwyd Antur Teifi ym 1980 gyda'r nod o adfywio cyfleoedd gwaith parhaol yn Nyffryn Teifi. Cryfder yr Antur yw ei bod wedi codi o weithgarwch unigolion ymroddgar yn y gymuned leol. Deallant natur y newidiadau sosio-economaidd a effeithiodd ar y Dyffryn, a cheisiant gynnig atebion addas i broblemau lleol, a hynny drwy ddulliau economaidd yn hytrach na dulliau ieithyddol yn unig.

3.2.2. Mae'n eglur fod amrywiol gyfrifoldebau Antur Teifi wedi'u canoli ar ddatblygiad economaidd a hyfforddiant galwedigaethol, yn arbennig wrth ddelio â thelemateg ac amrywiant amaethyddol.

3.2.3. Mae'r broses ymyrrol yn gweithio trwy:

- atgyfnerthu'r is-adeiledd lleol;
- cynghori a hybu datblygiadau;
- cydweithio â chyrff eraill;
- arloesi - drwy gynnal gwasanaethau a chynnyrch ar gyfer eu defnyddio gan eraill.

3.2.4. Mae'r iaith yn rhan naturiol o'i gweithgaredd, gyda 90% o'r staff yn Gymry Cymraeg. Mae'r gwerth ychwanegol a gododd ohoni yn cynnwys:

- rhwydweithio'n effeithiol;
- cefnogaeth gan asiantaethau fel Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Datblygu Cymru Wledig, Prosiectau *Leader*;
- parodrwydd i ymateb i anghenion cymdeithasol a hyfforddi lleol;
- ymrwymiad i gyfrannu at fuddiannau'r gymuned;
- hyblygrwydd wrth ymateb i newidiadau economaidd ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol;
- dull o weithio sy'n soffistigedig ac yn bragmatig;

- rhoi cyfle i bobl ifanc aros yn yr ardal.

3.2.5. Yr oedd cytundeb sylweddol ymysg y sampl y dylai'r Gymraeg gynyddu yn yr ardal ac yn gysylltiedig â hyn, gellid dweud y byddai croeso i weithgaredd penodol i hyrwyddo'r iaith yno. Datganodd nifer fawr o atebwyr eu bod am i Antur Teifi ehangu'i gweithgareddau i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned (76.4% o'r rhai a fynegodd farn). Yr oedd yr Antur, ar ei gwedd bresennol, yn cyflwyno delwedd weddol gadarnhaol i'r atebwyr - lleiafrif bychan yn unig (8.7%) a gredai fod yr Antur y tu hwnt i anghenion y boblogaeth leol, ac yr oedd nifer fawr o'r farn y dylai fod naill ai'n gynllun hyfforddi i fentrwyr lleol neu'n gorff i gydlynu gwaith hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned.

3.2.6. Mae'n amlwg fod Antur Teifi wedi cyfrannu'n helaeth at atal effaith dirywiad economaidd yn yr ardal, a thrwy hynny wedi llwyddo i gyflwyno delwedd fodern i'r Gymraeg fel iaith busnes ac yn ehangu ei defnydd yn ymarferol. Hyd yn hyn ni ddatblygwyd ochr gymdeithasol neu ieithyddol bur i weithgareddau Antur Teifi, ond mae'r potensial am weithgareddau o'r fath yn uchel, naill ai fel rhan o swyddogaeth Antur Teifi neu drwy sefydliad arall. Adlewyrchir y cytundeb sylweddol y dylai'r Gymraeg gynyddu yn yr ardal yn y nifer fawr o atebwyr a ddatganodd eu bod am i Antur Teifi ehangu'i gweithgareddau i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned (76.4% o'r rhai a fynegodd farn).

3.2.7. Y mae Antur Teifi yn enghraifft wirioneddol dda o weithgaredd sydd wedi'i gwreiddio yn ei chymuned leol ac o'r herwydd, yn fwy tebygol o lwyddo am ei bod yn ymateb i anghenion economi leol sy'n newid yn gyflym. Nid oes tyndra rhwng ideoleg a gweithredu yma. O'r herwydd, mae Antur Teifi yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu'r ardal mewn ffordd gynaladwy, ac yn ateb gofynion gwahanol i'r Mentrau Iaith a drafodir isod. Y mae ein harchwiliad o gyfraniad Antur Teifi i lewyrch cymharol cefn gwlad Cymru yn ein hargyhoeddi y dylid ystyried datblygu'r math hwn o asiantaeth ar gyfer ardaloedd eraill, gan ei bod yn cyfrannu at ddatblygiad cynaladwy heb wanhau natur ieithyddol gynhenid y gymuned.

### 3.3. Cymoedd Gwendraeth ac Aman

3.3.1. Yr ardaloedd hyn yw'r rhai cyntaf i brofi effaith cynllunio ieithyddol statws penodol. Dyma'r ardaloedd cryfaf eu Cymraeg yn y Gymru ddiwydiannol, ac o'r herwydd, mae'r rhwydweithiau a'r patrymau ieithyddol a geir yma yn adlewyrchu hynt a helynt y Gymraeg mewn cyd-destun trefol cynyddol Saesneg. Maent hefyd yn ardaloedd sydd wedi dioddef yn llym

yn sgil prosesau dad-ddiwydiannu, ac sy'n ceisio ymdopi â threfn economaidd newydd.

3.3.2. O ganlyniad i'r newidiadau sylfaenol hyn, gwelwyd fod sefyllfa'r Gymraeg fel prif iaith y gymuned o dan fygythiad. Er mwyn ceisio ei hadfer i'w phriod le, sefydlwyd Menter Cwm Gwendraeth ym mis Ionawr 1991 fel cynllun arloesol i hybu'r Gymraeg ar lefel gymunedol. Rhan o'r bwriad gwreiddiol wrth ei sefydlu oedd creu model o gynllunio ieithyddol a chreu enghreifftiau o arferion da y gellid eu trosglwyddo i ardaloedd eraill yng Nghymru. Sefydlwyd Menter Aman Tawe ym mis Ionawr 1994.

3.3.3. Mae'n gwbl amlwg fod cryn werthfawrogiad o gyfraniad y Mentrau Iaith ymysg pobl eu hardaloedd am eu bod wedi cyfoethogi ansawdd bywyd ac wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau'r atebwyr tuag at y Gymraeg a'u defnydd ohoni. Gwir yw dweud fod gwahaniaethau sylfaenol rhwng y ddwy Fenter Iaith, a manteisiwyd ar y cyfle hwn i gymharu eu llwyddiant wrth weithredu i adfywio'r Gymraeg.

### 3.4. Menter Cwm Gwendraeth

3.4.1. Seiliwyd strategaeth Menter Cwm Gwendraeth ar yr amcanion cyffredinol canlynol:

- creu amodau cymdeithasol a fydd yn meithrin agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg a defnydd helaethach ohoni;
- normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng cymdeithasol a sefydliadol;
- amlygu'r gydberthynas glòs rhwng iaith ac agweddau yn ymwneud ag ansawdd bywyd, yr amgylchedd a'r economi lleol.

3.4.2. Mae Menter Cwm Gwendraeth wedi elwa o ddenu personél galluog sydd wedi dangos treiddgarwch wrth ddatblygu cynllunio strategol gwrthrychol. Cynnwys hyn osod nodau realistig, dadansoddi materion penodol sy'n berthnasol i amcanion y Fenter gan ddefnyddio amrywiaeth eang o ddata cynradd ac eilradd, monitro ei phrosiectau'n fanwl, a hunanwerthuso ei hymdrechion ymarferol ym maes cynllunio ieithyddol. Yn hynny o beth, mae'r Fenter yn fodel arloesol o gynllunio pwrpasol da.

3.4.3. Er mwyn osgoi'r perygl o gynllunio rhy ganolog, sefydlodd y Fenter rwydwaith o bwyllgorau trefnu lleol i rannu perchnogaeth ar y broses o ymyrryd yn ieithyddol. Mae'r pwyllgorau hyn yn cynnig modd i glymu'r gymuned leol wrth y broses o benderfynu a gweithredu polisi'r Fenter. Mae

hyn wedi dwyn ffrwyth yn nhermau ewyllys da a chefnogaeth y gymuned - yr oedd y sampl yn gwerthfawrogi bodolaeth Menter Cwm Gwendraeth yn yr ardal yn fawr iawn - ac yn nhermau adfer hyder y gymuned wrth ddefnyddio'r iaith yn gyhoeddus.

3.4.4. Mae'r Fenter wedi dangos ei bod yn barod i greu partneriaethau gweithredol â chyrff ac asiantaethau eraill. Mae wedi ymestyn ei dylanwad fel y'i gwelir bellach yn fenter datblygu cymunedol sy'n rhoi pwyslais ar y Gymraeg ac sy'n ei defnyddio i ymgymryd â'i thasgau. Dyma sut y dylid gweld menter yn y fath gyd-destun sosioieithyddol, lle y mae'r iaith yn gyfrwng i amcanion cymdeithasol yn hytrach nag yn amcan ynddi'i hun. Wrth ddatblygu'n asiant cymunedol, mae'r Fenter wedi llwyddo i ddenu cefnogaeth ariannol o ffynonellau newydd, gan gynnwys grant sylweddol oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd.

### 3.5. Menter Aman Tawe

3.5.1. Gellir mynegi nodau'r Fenter fel a ganlyn:

- cynllun i hybu'r Gymraeg ym mhentrefi Cwm Tawe a Chwm Aman;
- cynllun i sicrhau lle priodol i'r Gymraeg yn y ddau gwm;
- cynllun i greu brwdfrydedd a balchder yn ein hetifeddiaeth.

3.5.2. Ni chynhwyswyd Cwm Tawe'n rhan o'r gwaith maes. Ffocws yr ymchwil yn yr ardal hon oedd rhan orllewinol ardal Menter Aman Tawe, sef Cwm Aman, lle archwiliwyd rhwydweithiau a nodweddion ieithyddol y gymuned honno.

3.5.3. Mae Menter Aman Tawe yn gweithredu fel fforwm cyd-drefnu ar gyfer y Gymraeg mewn ardal weddol ddirwasgedig. Mae'n ymglymu'n ymwybodol iawn wrth waith ieuenctid ac yn mabwysiadu'r Gymraeg fel estyniad naturiol o fywyd pob dydd, gan gynnwys gweithgareddau cymdeithasol, chwaraeon a digwyddiadau diwylliannol. Un brif rinwedd a ddatgelodd y gwaith maes yw bod y rhai sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Fenter yn mwynhau'r digwyddiadau a drefnwyd gan Fenter Aman Tawe; nid oes teimlad eu bod yn mynychu o ddyletswydd, ond yn hytrach teimlir mai gwaith ieuenctid cymunedol craidd ydyw. Dylid nodi fod effeithiolrwydd parhaol gweithgareddau o'r math hyn a drefnir gan y Fenter yn ddibynnol ar grðp weddol fach o wirfoddolwyr.

3.5.4. O'i chymharu â Menter Cwm Gwendraeth, y mae ym Menter Aman Tawe fwy o bwyslais ar gyfathrach gymdeithasol â phobl a thelir llai o sylw

i gynllunio pwrpasol. Dadleuai rhai, felly, fod effeithiau Menter Aman Tawe yn chwim ac yn fwy uniongyrchol, gan fabwysiadu dull pragmatig yn aml. Fodd bynnag, adlewyrcha hefyd strwythur cymdeithasol yr ardal. Yn y dechrau fe ffurfiwyd rhyw 25 pwyllgor pentref er mwyn estyn gwaith y Fenter. Erbyn hyn mae llawer o'r rhain wedi dod i ben oherwydd diffyg brwdfrydedd.

3.5.5. Y brif anhawster sy'n wynebu Menter Aman Tawe yw diffyg arweinwyr cymdeithasol i fynd â'r Fenter yn ei blaen. Nid yw syniadau nac ymrwymiad staff yn brin - yr hyn sy'n ddiffygiol yw'r teimlad o berchnogaeth gymunedol ar y Fenter, yn hytrach na diddordeb y gymuned yn ei llwyddiant. Felly, fe argymhellir talu mwy o sylw i'r ffordd y gellid meithrin arweinwyr cymdeithasol a'u tynnu i mewn i'r broses o adfywio ieithyddol. Y mae mawr angen strwythur i ddatblygu arweinwyr cymdeithasol lleol. Gellid gwneud hyn fel rhan o weithgaredd Menter Iaith a'i phartneriaid yn y gymuned er mwyn sicrhau rhwydweithiau ieithyddol effeithiol. Oni wneir hyn, bydd y ffin ieithyddol yn sicr o barhau i symud yn ddiwrthdro tua'r gorllewin. Fel y mae, cymedrol neu isel yw potensial Menter Aman Tawe ar gyfer datblygiad hunan-gynhaliol hir dymor.

### 3.6. Casgliad

3.6.1. Prif effeithiau'r ymyrraeth ieithyddol yn y ddau gwm fu hyrwyddo'r teimlad cyffredinol o hyder cymunedol a balchder wrth weld pethau cyffrous yn digwydd yn yr ardal. Mae hefyd wedi cyfrannu at ail-ffurfio rhwydweithiau diwylliannol a sosio-economaidd. Yn ogystal â threfnu cyfleoedd uniongyrchol i bobl ddefnyddio'r iaith, mae bodolaeth y Mentrau Iaith wedi ysgogi nifer o sefydliadau'r ardaloedd hynny i sicrhau fod dewis iaith ymarferol ar gael a, thrwy hynny, hwyluso defnyddio'r Gymraeg mewn peuoedd newydd, yn enwedig yng Nghwm Gwendraeth. Yn y pen draw dylai'r rhwydweithiau hyn gynnal ystod eang o weithgaredd cyfrwng Cymraeg oherwydd bod y cyhoedd yn gweld gwerth parhaol i'r iaith. Gwelwyd o'r ymchwil fod y Gymraeg yn graddol adennill ei thir mewn sawl maes, ond yn bennaf yn y meysydd canlynol:

- iaith cynnal adloniant poblogaidd yr ardal ee. rygbi, criced, dramâu;
- gofal yn y gymuned a gwasanaethau iechyd;
- dewis iaith chwarae gan blant y tu allan i oriau ysgol;
- clybiau gweithwyr a thafarnau.

3.6.2. Eto i gyd deil y dyfodol yn ansicr, oherwydd bod y broses o normaleiddio yn dibynnu i raddau helaeth ar gefnogaeth barhaol y

gymuned.

3.6.3. Y mae ymyrraeth ieithyddol y Mentrau Iaith, felly, wedi effeithio'n uniongyrchol ar sefyllfa'r Gymraeg yn eu hardaloedd ac mae'n amlwg fod cryn werthfawrogiad o'u cyfraniad i gyfoethogi ansawdd bywyd Cwm Gwendraeth a Chwm Aman. Yn sgil tystiolaeth yr ymchwil mae digon o gyfiawnhad dros gasglu fod y rhain yn offeryn y gellid ei datblygu ac addasu er mwyn ymateb yn gadarnhaol i broblemau dirywiad ieithyddol mewn ardaloedd eraill, gan gynnwys y ffactorau a nodir yn adran 2 o'r ddogfen hon. Argymhellir y dylid gwneud hynny. Ni ddylid gorgyffredinoli o brofiad y Mentrau a sefydlwyd eisoes a cheisio llunio un model hollgynhwysfawr a fyddai'n cynrychioli'r Fenter Iaith berffaith. Un o brif gryfderau cysyniad y Mentrau Iaith yw'r ffaith nad yw'n ddibynnol ar ddilyn dull penodol o weithredu nac ar sefydlu strwythur arbennig: mae'r hyblygrwydd i ymateb yn effeithiol ac yn bwrpasol i anghenion arbennig ardal benodol yn elfen greiddiol. Mae cysyniad y Mentrau Iaith yn sylfaen y gellir ei datblygu, ac adeiladu fframwaith cynllunio ieithyddol lleol arni.

3.6.4. Ystyriwn hyn ymhellach yn yr adran nesaf.

▲ Top

# 4. Mentrau Iaith: Fframwaith Ar Gyfer Atgyfnerthu'r Gymraeg yn y Gymuned

## 4.1. Y Gymuned Gymraeg?

4.1.1. Bu cyflwr y gymuned Gymraeg yn destun gofid i lawer ers peth amser. Serch hynny, gall yr holl syniad o 'gymuned' fod yn broblematig pe'i cyfyngid i weithgareddau traddodiadol yn unig ac os anwybyddir, o ganlyniad, realiti'r Gymru gyfoes. Yn aml, delwedd rhy gyfyngedig o'r gymuned Gymraeg a geir ac nid holl ystod ei gwir amrywiaeth. Er mwyn sicrhau effeithlonrwydd ymyrraeth ieithyddol o'r cychwyn cyntaf, mae' n rhaid i unrhyw asiant ymyrraethol ddod i ddeall gwir gymeriad ei gymuned fel y mae, a gweithredu mewn ffyrdd sy'n berthnasol i'r gymuned honno yn hytrach na rhagdybio y gellid ail-greu math o gymuned nad yw bellach yn bodoli. Wrth reswm, mae natur cymdeithas a natur cymunedau yn newid yn gyson. Dylid nodi nad yw newid o reidrwydd yn fygythiad i'r Gymraeg.

4.1.2. Y mae'n amlwg fod effeithiolrwydd gweledol unrhyw Fenter Iaith yn

dibynnu i raddau ar gyflwr cychwynnol yr iaith yn ei chymuned ac ar awydd rhai o aelodau'r gymuned honno i 'wneud rhywbeth amdani'. Yn wir, gellid dadlau mai anodd fyddai datblygu Menter Iaith mewn ardal lle nad yw'r awydd hwn yn hollol amlwg; felly, ni ddylid rhuthro i ystyried sefydlu Menter heb fod cefnogaeth leol dros y fath ymyrraeth ieithyddol. Mae adfywio'r Gymraeg yn y gymuned yn broses hir-dymor. Naïf fyddai credu y gallai unrhyw asiant ymyrraethol ddylanwadu'n uniongyrchol ar fywydau mwyafrif trigolion unrhyw ardal mewn byr amser, yn enwedig o'r tu allan. Ni ellid disgwyl i unrhyw asiantaeth gymdeithasol ddylanwadu ar y rhan fwyaf o'r bobl y rhan fwyaf o'r amser. Yn yr un modd, ni ellid disgwyl i wahanol gymunedau ymateb mewn ffordd gyffredin i'r un sbardun adfywiol. Mae'r hyblygrwydd i ymateb yn effeithiol i anghenion arbennig ardal benodol yn greiddiol i gysyniad Fenter Iaith.

## 4.2. Mentrau Iaith ar gyfer atgyfnerthu'r Gymraeg

4.2.1. Mae hi ychydig yn rhy gynnar i fwrw amcan ar effaith lawn cyfraniad y Mentrau Iaith i adfer y Gymraeg yn eu hardaloedd, ond ni ddylid tanbrisio'u potensial. Hyd yn hyn, dyma'r ffordd fwyaf effeithiol a gafwyd o weithredu a chynnal strategaeth adfywiol ar y lefel leol. Mae'r Mentrau yn debyg o fod yn offerynnau allweddol i sefydlogi ffragmenteiddio ieithyddol, yn arbennig mewn ardaloedd sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Anodd yw gweld sut y gall y Strategaeth a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn Rhagfyr 1996 gael ei gwireddu heb fframwaith cyffelyb iddynt. Yn y dyfodol disgwylir i fodolaeth rhagor o Fentrau Iaith o wahanol fathau ganiatáu sefydlu cronfa ddata o arferion da a fydd yn cyfrannu at ein profiad o gynllunio ieithyddol. Y gobaith yw y gellid sefydlu dulliau mwy dibynadwy o ragweld a mesur canlyniadau tebygol ymyrraeth.

4.2.2. Mae dau brif reswm dros gefnogi a hyrwyddo sefydlu Mentrau Iaith:

- Mewn sefyllfaoedd lle y ceir potensial ieithyddol cryf ond rhwydweithiau sosioieithyddol gwan, maent yn cynnig hwb sosio-seicolegol cadarnhaol i gynnal y Gymraeg mewn cyd-destunau a fyddai, fel arall, yn ffragmenteiddio;
- Yn rhinwedd eu statws fel cyrff cynllunio ieithyddol lleol, gallent weithredu fel ffocws ar gyfer creu fforymau i gynnal partneriaethau rhwng y llywodraeth ganolog (drwy law y Swyddfa Gymreig), Bwrdd yr Iaith Gymraeg, llywodraeth leol, cyrff cyhoeddus statudol, ymddiriedolaethau iechyd ac amrywiaeth o gyrff gwirfoddol a chwmnïau preifat, er mwyn ehangu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r

Gymraeg.

4.2.3. Mantais fawr yw gallu'r Mentrau i ffurfio rôl newydd ar gyfer y Gymraeg mewn peuoedd a gyfyngid hyd yn hyn, a hynny heb iddynt fod yn rhan o'r gyfundrefn weinyddol swyddogol. Mae'r annibyniaeth hon yn cynnig llawer o ryddid i Fentrau ddyfeisio dulliau arloesol ac unigryw o hyrwyddo'r Gymraeg, a manteisio ar bob cyfle a ddaw i law. Fodd bynnag, er mwyn i'r Mentrau elwa ar eu hannibyniaeth, rhaid iddynt arddangos aeddfedrwydd gwleidyddol a medrau rhyngbersonol priodol. Fel hyn, gallent weithredu fel cyrff cydlynol uchel eu parch heb orfod, o reidrwydd, feddu ar statws nac awdurdod gwleidyddol. Bydd Mentrau Iaith, fel y'u hadwaenir ar hyn o bryd, yn parhau i fodoli fel cyrff sy'n dibynnu am eu bodolaeth a'u llwyddiant ar asianteithiau mwy sefydledig. Serch hynny, wrth iddynt geisio ymestyn eu diddordebau a chydweithio ag eraill yn y gyfundrefn er lles y gymuned, rhaid iddynt osgoi cael eu cymathu, a cholli'r ffocws ieithyddol cychwynnol.

4.2.4. Cryfder mawr Mentrau Iaith yw eu bod yn ceisio gwasanaethu anghenion y gymuned leol. Mae'n amlwg y dylai pob Menter Iaith fabwysiadu o'r cychwyn cyfres o nodau, amcanion a chyfrifoldebau penodol, perthnasol. Fodd bynnag, gan fod cymaint o *rationale* Mentrau yn ddibynnol ar amgylchiadau arbennig eu sefydlu, ac ar y personél sy'n eu rhedeg, byddai'n annoeth ceisio pennu cyfres gynhwysfawr o nodau, amcanion a chyfrifoldebau i fodloni pob sefyllfa bosibl ar sail sampl mor gyfyngedig â'r ddwy Fenter a astudiwyd yn yr ymchwil hon. Un o nodau'r ymchwil hon yw cynnig fframwaith synhwyrol er mwyn datblygu'r cysyniad o Fenter Iaith a chynigir isod yr elfennau perthnasol y dylid eu hystyried wrth sefydlu Mentrau Iaith newydd. Mae nifer o gwestiynau mae'n rhaid eu hystyried wrth lunio'r fath fframwaith.

4.2.5. Y peth cyntaf y mae'n rhaid ei ofyn yw ai Mentrau *Iaith* neu fentrau *cymunedol* y dylid eu hybu? Ac o ran Mentrau Iaith, a yw'n anochel mai sefydliadau dros dro fyddent? Os yw Menter i fod yn asiant arloesol, arbrofol, ymyraethol sy'n mynd i newid disgwyliadau, creu rhwydweithiau newydd a rhoi cymorth i gymunedau adennill tir a gollwyd yn ieithyddol, a yw'n dilyn mai asiant tymor-byr neu dymor-canol ddylai unrhyw Fenter Iaith fod? Yn yr un modd, a yw'n dilyn fod yn rhaid i fentrau sy'n rhoi'r pwyslais ar hyrwyddo'r Gymraeg drwy wella sefyllfa sosio-ieithyddol y gymuned fod yn sefydliadau parhaol? Hefyd, a ddylai'r rhain fod yn fentrau cymunedol, yn fentrau economaidd, neu'n gyfuniad o'r ddwy? Neu, a ddylem ddatblygu model sy'n nes at asiant sy'n cydlynu a symbylu

gweithgareddau Cymraeg gan eraill?

4.2.6. Peth da yw fod Bwrdd yr Iaith yn cael ei weld fel corff hwyluso a chyfrannwr ariannol cychwynnol i fentrau lleol fel Menter Cwm Gwendraeth a Menter Aman Tawe. Heb yr ymroddiad allanol a'r gefnogaeth ariannol hon, mae'n annhebygol a fyddai Mentrau Iaith wedi datblygu i'r fath raddau. Serch hynny, mae'n debyg na fydd Bwrdd yr Iaith mewn sefyllfa i gyfrannu'n ariannol at Fentrau newydd i'r un graddau ag a wnaed yn achos y Mentrau a sefydlwyd eisoes, ac y bydd yn rhaid i Fentrau ddarganfod ffynonellau eraill o gefnogaeth ariannol. Yn benodol, credwn y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol gymryd mwy o gyfrifoldeb dros gynnal anghenion Mentrau Iaith newydd. Bydd hyn yn beth da yn wleidyddol, ac yn fwy tebygol o ganiatáu i'r Mentrau Iaith gydlynu'u gwaith *oddi mewn* i'r amrywiaeth o weithgareddau statudol a gwirfoddol sy'n bod yn barod. Mae'n hollbwysig fod Mentrau Iaith y dyfodol yn cael eu gweld fel asianteithiau ymyrraethol gwerthfawr, cost-effeithiol yn y broses o adfywiad cymunedol.

4.2.7. Gellir dadlau mai un o brif nodau cynllunio ieithyddol statws yw galluogi'r iaith i fod yn hunan-gynhaliol drwy godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r potensial i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Yn naturiol, mae'n dilyn y dylai *annog a hyrwyddo perchnogaeth y gymuned ar yr iaith, ynghyd â throsglwyddo'r cyfrifoldeb amdani yn ôl i wirfoddolwyr yn y gymuned* fod ymysg nodweddion amlwg unrhyw Fenter Iaith. O reidrwydd bydd y cwestiwn o faint o amser a gymerir i gyflawni'r nod hwn fel bo'r gymuned yn barod i gymryd yr awenau a'r cyfrifoldeb dros yr iaith - ac i ba raddau y byddai diddymu'r Fenter o ganlyniad i'r trosglwyddiad hwn yn achosi niwed i'r iaith - yn anodd i'w ateb ac yn wahanol yn achos pob ardal. Mater o ddatblygiad cymunedol yw hyn ac nid mater o amser penodol yn unig.

4.2.8. Realiti'r sefyllfa, wrth gwrs, yw fod tuedd i'r elfen gatalyddol droi yn elfen gyfundrefnol - hynny yw, fod tuedd i gyrff gyfreithloni eu hunain drwy ddatblygu'n rhan o'r gyfundrefn yr oeddent wedi eu sefydlu i ymyrryd ynddi. Gan mai asiant dros dro yn y bôn yw Menter Iaith, teg gofyn i ba raddau y gellid osgoi'r duedd hon. Cyfyd adran yn yr adroddiad llawn gwestiynau ynglþn â'r tyndra rhwng y duedd, ar y naill law, i'r Mentrau droi'n sefydliadau ac, ar y llaw arall, yr angen i drosglwyddo'r berchnogaeth yn ôl i'r gymuned.

4.2.9. Cydnabyddwn nad oes atebion safonol i'r holl gwestiynau uchod. Mae'n amlwg na fydd yr atebion sy'n bodloni sefyllfa un gymuned yn addas

ar gyfer cymunedau eraill. Serch hynny, gwelwn fod gwir angen datblygu fframwaith fydd yn cynnig arweiniad i'r rhai sy'n dymuno sefydlu Menter, a chredwn y dylai'r fframwaith hwn geisio cyfuno gwaith Mentrau Iaith â nifer o gyrff craidd sefydledig fel adrannau addysg, lles ac iechyd ac yn y blaen. Rhaid nodi mai gwaith Menter Iaith yn ei hanfod yw perswadio eraill i weithredu: nid swyddogaeth y Fenter yw cymryd cyfrifoldeb dros y cwbl oll.

## 4.3. Y Fframwaith

4.3.1. Yn y pen draw, normaleiddio'r Gymraeg fydd prif amcan y Mentrau Iaith. Mae Menter Cwm Gwendraeth eisoes wedi cydnabod hyn a chynigwn yr amcanion cyffredinol sydd ynghlwm wrth ei *Strategaeth* fel rhai a fyddai'n addas i bob Menter:

- creu amodau cymdeithasol a fydd yn meithrin agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg a defnydd helaethach ohoni;
- normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng cymdeithasol a sefydliadol;
- amlygu'r gydberthynas glòs rhwng iaith ac agweddau yn ymwneud ag ansawdd bywyd, yr amgylchedd a'r economi lleol.

4.3.2. Yn ogystal, ar sail canlyniadau'r ymchwil hon, ein hymgynghoriaeth ehangach, a'r ystyriaethau o'i goblygiadau ar gyfer datblygu'r cysyniad o Fentrau Iaith, cynigwn y dylai nodau pob Menter gynnwys yr elfennau ychwanegol hyn:

- annog a hyrwyddo perchnogaeth y gymuned ar yr iaith, ynghyd â throsglwyddo'r cyfrifoldeb amdani yn ôl i wirfoddolwyr a phartneriaid cymunedol y Fenter;
- cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg trwy weithgareddau hamdden a chymdeithasol;
- cydweithio â mudiadau, cynrychiolwyr sefydliadau ac unigolion eraill ar lefel leol a chenedlaethol er lles y Gymraeg yn y gymuned;
- codi proffil y Gymraeg ymysg busnesau'r ardal;
- hyrwyddo dwyieithrwydd yn y gweithle;
- annog siaradwyr y Gymraeg i ddefnyddio'r iaith ac i ddefnyddio'r cyfleusterau dwyieithog sydd ar gael eisoes;
- gloywi iaith siaradwyr rhugl;
- adennill siaradwyr ansicr, neu'r rhai a gollodd eu Cymraeg am ba reswm bynnag;
- cynnig cymorth ymarferol i oedolion sy'n ddysgwyr a disgyblion sy'n

astudio'r Gymraeg fel ail-iaith;
- cymathu siaradwyr newydd i'r gymuned Gymraeg ei hiaith ac addysgu'r siaradwyr mamiaith amdanynt;
- pwyso ar gyrff hyfforddi i baratoi darpariaeth broffesiynol ddwyieithog ac iaith-gyfeillgar;
- dosbarthu gwybodaeth am addysg a hyfforddiant Cymraeg yn lleol;
- os yw'n berthnasol, hybu elfennau a fydd yn arwain at ddatblygiad economaidd lleol.

4.3.3. Yn ogystal â'r rhain, rhoddir isod restr o'r elfennau gweinyddol y mae angen eu hystyried wrth gynllunio a lansio Mentrau Iaith newydd:

- strwythur priodol ar gyfer rheolaeth ymhob safle newydd;
- cynllun ariannol cadarn ar gyfer bywyd tybiedig y Fenter (ar y cychwyn byddai 2 i 5 mlynedd yn briodol);
- syniadau ymarferol parthed sut i "naturioleiddio" Mentrau Iaith fel eu bod, gan bwyll bach, yn lleihau eu dibyniaeth ar gymhorthdal uniongyrchol y llywodraeth wrth iddynt geisio dod yn asiantaethau hunan-gynhaliol, yn gweithredu'n wirioneddol yn y gymuned y maent yn ei gwasanaethu ac y maent wedi codi ohoni;
- ystyriaeth fanwl i rwydweithiau o fewn pob ardal darged, ynghyd ag ystyriaeth o gymeriad a dymuniad sosioieithyddol y rheiny y gellid eu galw'n "Gymry Cymraeg cudd", h.y. y dinasyddion nad ydynt, ar hyn o bryd, yn rhan o'r rhwydweithiau Cymraeg sy'n bodoli;
- ystyriaeth i rôl ac effeithiolrwydd posibl ac/neu effeithiau gelyniaethol ffurfiau newydd o delegyfathrebu wrth gynnal rhwydweithiau mwy newydd;
- ystyriaeth i'r atyniad a ddeuai o sefydlu canolfannau adnoddau, a'r rheiny nid o reidrwydd yn rhannau annatod o'r Mentrau: gallent fod yn ychwanegiad i'w llwyddiant ond byddai angen pwysleisio'r elfen gydweithredol mewn unrhyw berthynas arfaethedig;
- ystyriaeth i'r posibilrwydd o gynnal cyfres o seminarau ar y cyd gyda'r asiantaethau, yr awdurdodau lleol ac arbenigwyr yn y maes, i drafod ac i werthuso profiadau hyd yn hyn;
- creu pecyn sy'n rhoi ystyriaeth i'r cysyniad o gynlluniau cymunedol; amlinelliad o strategaeth ac effeithiolrwydd y Mentrau presennol; esiamplau o'r hyn sydd wedi llwyddo ac wedi methu, gan gynnwys esboniad llawn; a braslun o gostau tebygol y buddsoddiad blynyddol fel bo gwahanol benderfyniadau yn cael eu hadeiladu ar sail realistig.

4.3.4. Wrth gwrs, mae'r rhain oll yn dibynnu ar ddiffiniad eglur o rôl Bwrdd

yr Iaith yn y broses o sbarduno datblygiadau ymarferol ym maes cynllunio ieithyddol yng Nghymru. Mae angen dealltwriaeth glir ynghylch y cytundeb ffurfiol rhwng Bwrdd yr Iaith a'r Mentrau Iaith, sy'n datgan natur y berthynas ac amlinelliad o'r cyfrifoldebau a rannwyd â chyrff eraill sy'n darparu gwasanaethau dwyieithog. Onid adeiladir perthynas buddiol a gweithredol rhwng Bwrdd yr Iaith a'r Mentrau a all gael eu sefydlu, y mae perygl i bawb weithio'n annibynnol ac i Fwrdd yr Iaith golli cyfle i yrru'r broses yn strategol. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu arian ymhob achos, ond yn hytrach arbenigrwydd ac arweiniad gwleidyddol. Mae ffocws cychwynnol y Bwrdd ar ymddygiad ieithyddol a Mentrau Iaith yn rhesymol, ond dylid datblygu gwaith ychwanegol ar nifer o ffactorau hollbwysig eraill, sy'n dylanwadu ar drosglwyddo a defnyddio'r Gymraeg, megis:

- strwythurau galwedigaethol a datblygu economaidd lleol;
- rhwydweithiau cymdeithasol anhraddodiadol, yn arbennig mewn ardaloedd trefol;
- ymchwil ar oblygiadau cymdeithasol ac economaidd rhwydweithiau telemateg;
- tueddiadau demograffig a gwahaniaeth oedran/rhyw yn ôl caffael a chynnal ieithyddol;
- dealltwriaeth glir o newid cymunedol gwledig a allai fod yn annibynnol ar, er yn cyfrannu tuag at, yr amodau sy'n cynnal y Gymraeg fel elfen ddeinamig ym mywyd y gymdeithas;
- dadansoddiad o'r hyn yw'r ffordd fodern Gymraeg o fyw;
- ystyriaeth o ffyrdd i gryfhau'r medr ieithyddol sydd gan Cymry Cymraeg;
- ymchwil ar sut i ddatblygu'r Mentrau fel asiantau ym maes datblygu cymdeithasol.

4.3.5. Cyfeiriwn at rai o'r ffactorau a'r elfennau uchod yn ein prif argymhellion a ymddengys ar ddiwedd y ddogfen hon.

Top

# 5. Dulliau eraill o ymyrryd

5.0.1. Er mor bwysig a phoblogaidd yw'r cysyniad o Fenter Iaith, rhaid sylweddoli nad hwn yw'r unig fodd i ymyrryd yn hynt y Gymraeg. Yn ogystal â'r angen i ymyrryd ar lefel y gymuned leol, dengys canlyniadau'r

ymchwil hon fod yn rhaid talu sylw i feysydd eangach. Hoffem yn yr adran nesaf ystyried a chynnig dulliau eraill o ymyrryd ar lefelau eraill er mwyn ateb yr anghenion a nodwyd yn adran 2 o'r ddogfen hon, ac yn arbennig y cysyniadau canlynol:

- Mentrau i hyrwyddo'r iaith ar lefel sirol
- Canolfannau Adnoddau
- *Animateurs* Ieithyddol.

5.0.2. Rhaid nodi ar y cychwyn nad dulliau ymyrryd amgen i Fentrau Iaith yw'r rhain; yn hytrach maent ar y cyd yn cynnig is-strwythur cyflenwol er mwyn hwyluso gweithgareddau cynllunio ieithyddol ar y lefel gymunedol, y lefel sirol, a'r lefel genedlaethol.

### 5.1. Mentrau i hyrwyddo'r iaith ar lefel sirol: enghraifft Sir Gaerfyrddin

5.1.1. Sefydlwyd Panel Ymgynghorol Cynllunio Ieithyddol gan Gyngor Sir Gaerfyrddin ym 1996 i ddatblygu'r syniad o sefydlu fframwaith cynllunio ieithyddol ar gyfer yr holl sir. Mae nifer o ffyrdd i ddatblygu ac ehangu'r ddarpariaeth bresennol ac fe'u crynhoir gan y Pwyllgor Ymgynghorol - sy'n cynnwys cynrychiolaeth o Fentrau Iaith y Sir, Bwrdd yr Iaith, a Phrifysgol Cymru Caerdydd - fel dewis rhwng y tri opsiwn canlynol, neu gyfuniad ohonynt:

- Sefydlu Mentrau ychwanegol ar draws y Sir.
- Sefydlu un Menter Iaith Sirol â nifer o loerennau ieithyddol ar draws y Sir.
- Datblygu'r Mentrau a'r Anturiaethau presennol gan sefydlu Fforwm i gydlynu'r gweithgareddau.

5.1.2. Credwn fod yma sylfaen ar gyfer cynnig fframwaith effeithiol o weithredu ar lefel sirol, a hynny yng nghyd-destun Cynllun Iaith y Sir. Gall hwn hefyd fod yn fodel arloesol ar gyfer siroedd eraill yng Nghymru.

5.1.3. Mae'r datblygiadau yn Sir Gâr yn bwysig i Gymru gyfan. Yng nghyswllt datblygu polisïau i sicrhau ffyniant a pharhad i'r iaith yn y Sir mae'r cynllunio arloesol hwn yn 'achos prawf' ar gyfer llwyddiant ymyrraeth ieithyddol. Rhaid cydnabod fod cynllunio ieithyddol cymunedol yn elfen gymharol newydd o'i gymharu â nifer o feysydd eraill lle bu datblygiadau amlwg, er enghraifft datblygiad addysg ddwyieithog neu'r cyfryngau. Hyd yn ddiweddar iawn, esgeuluswyd rôl y gymuned wrth

gynnal yr iaith, er mai yn y gymuned y gwelir gwir potensial i adfywio'r Gymraeg.

5.1.4. Mae'n amlwg fod strwythur a chynllun iaith y Cyngor Sir yn allweddol bwysig er mwyn hyrwyddo'r broses o Gymreigio'r gyfundrefn leol. Yn dilyn hyn byddai natur a naws y ffordd y mae'r Cyngor Sir yn gweithredu yn effeithio ar ddisgwyliadau ei staff, y cynghorwyr a'r cyhoedd. Y Cyngor Sir sy'n adnabod natur ei gymunedau ac ef yn aml sy'n gyfrifol am gynllunio gwlad a thref, nifer o wasanaethau cyhoeddus ac yn y blaen. Bydd hefyd yn effeithio ar benodiadau i swyddi megis canolfannau hamdden, canolfannau hyfforddi ac ati. Gan mai proses yr ydym yn ei disgrifio, mae clymu'r Mentrau Sirol arfaethedig yn nes at fframwaith y Cyngor Sir yn eu galluogi i elwa ar brofiad, arbenigrwydd, grym pwrcasu a chynlluniau nifer o asiantaethau sy'n ymwneud â'r Cyngor Sir. Gallent hwy yn eu tro gynorthwyo'r awdurdodau lleol i weithredu eu cynlluniau iaith a chynnig profiad ymarferol wrth ddiwygio polisïau iaith y cynghorau sirol unedol. Fel awdurdod lleol ymroddgar, gall Caerfyrddin ddylanwadu ar lefel genedlaethol ar y broses o gynllunio ieithyddol, ar gyrff cyhoeddus eraill ac wrth gwrs ar bleidiau gwleidyddol ac asiantaethau sosio-economaidd.

5.1.5. Nodwn y byddai fframwaith sirol cryf a hyblyg hefyd yn galluogi unrhyw Fenter Sirol newydd i elwa ar brofiad da a gwael o ran y Mentrau presennol, yn ogystal â chreu ffyrdd newydd o weithredu'n effeithiol. Yn ogystal, gallai datblygu'r fath fframwaith sirol i gynllunio ieithyddol gryfhau rôl y Mentrau a sefydlwyd eisoes a rhai newydd, drwy gydlynu eu gwaith a chynnig rhwydweithiau gwleidyddol a diwylliannol iddynt er mwyn dwyn perswâd a phwysedd ar asiantaethau eraill pan fo angen.

5.1.6. Mantais arall fyddai'r posibilrwydd y gallai unigolion profiadol o un Fenter weithio'n draws-ffiniol, fel petai, ar brosiectau a lansiwyd gan Fentrau ac asiantaethau eraill e.e. gwaith arbenigol gyda phlant dan anfantais, gwaith arloesol gyda chyrff newydd neu ffyrdd newydd o gyfathrebu a defnyddio dulliau telemateg i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, i rannu gwybodaeth neu i rwydweithio'n effeithiol.

5.1.7. Gellid hefyd baratoi pecynnau adnoddau ar y cyd, naill ai'n sirol neu'n genedlaethol, wrth adeiladu ar arbenigrwydd staff y Mentrau a'r Ganolfan Adnoddau a ddisgrifir isod.

5.1.8. Cydnabyddir y byddai'r fath ddatblygiad yn cael ei ddehongli gan rai awdurdodau lleol fel ffordd o drosglwyddo costau'r Mentrau Iaith oddi wrth

Fwrdd yr Iaith i'r awdurdodau lleol a hynny mewn amgylchiadau ariannol cynyddol anodd. Ond dyna yw realiti'r hinsawdd bresennol o gyfyngu ar wariant cyhoeddus.

5.1.9. Mae'r ffaith y byddai rhai o'r mentrau newydd yn gwasanaethu poblogaeth wasgaredig, wledig yn golygu y byddai natur y Mentrau yn dra gwahanol i'r rheiny sydd eisoes yn bodoli yng Nghwm Gwendraeth ac yn Aman Tawe. Prif fyrdwn y Fenter newydd fyddai codi proffil y Gymraeg a chydlynu'r gweithgareddau presennol fel bo'r iaith yn ffynnu. Nid oes gwerth i unrhyw Fenter onid yw'n cynnal rhywbeth newydd, lle y mae cynhaliaeth ac ymyrraeth ill dwy'n bwysig. Er mwyn sicrhau gwerth y buddsoddiad, dylid ystyried yn ofalus gylch gorchwyl a sefyllfa ieithyddol ardal y Fenter arfaethedig o'u cymharu â'r Mentrau sydd eisoes yn bodoli cyn cychwyn ar unrhyw weithgareddau ymyraethol. Goblygiad hyn fyddai creu mwy o ddibyniaeth ar ddechrau'r broses ar sefydliadau megis y Ganolfan Adnoddau a ddisgrifir isod. Yn wir, rhagwelwn y gellid datblygu'r cysyniadau o Fentrau Iaith Sirol a Chanolfannau Adnoddau Iaith Sirol law yn llaw.

## 5.2. Canolfannau Adnoddau Iaith Sirol

5.2.1. Y Ganolfan Adnoddau Iaith fyddai'r brif arf i ddatblygu cynlluniau iaith yr awdurdodau sirol ac i wireddu'r potensial i Gymreigio diwylliant cyhoeddus y sir dan arweiniad yr awdurdod lleol. Yn yr un modd, y ganolfan fyddai prif asiant y sir er mwyn hyrwyddo'r prosesau ieithyddol statudol, y broses o wella gwasanaeth dwyieithog y sir, ac er mwyn sicrhau darpariaeth ddigonol o adnoddau a deunydd perthnasol.

5.2.2. O ran y prosesau ieithyddol statudol, byddai'r Canolfannau Adnoddau Iaith â'r arbenigrwydd ieithyddol berthnasol i holl ystod cyfrifoldebau'r sir. Yn benodol, byddai'n:

- cynnig cyngor proffesiynol ar faterion ieithyddol i gynghorwyr, swyddogion asiantau y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn ogystal â thrigolion y sir;
- trefnu hyfforddiant a seminarau i swyddogion y sir ac i weithwyr y Mentrau;
- cydlynu'r rhannau perthnasol rhaglen waith y cyngor sir er mwyn gwella ar y weinyddiaeth fewnol, annog cyfathrebu yn y Gymraeg, rhoi cyngor ar sut i ddelio â'r cyhoedd yn ddwyieithog, rhoi barn ieithyddol broffesiynol ar gyhoeddiadau, ffurflenni, arwyddion cyhoeddus, taflenni i gontractwyr ac aml weithgareddau eraill y sir.

5.2.3. Prif ddyletswydd y Ganolfan fyddai gwella'r gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd. Gwnâi hyn drwy gydweithio'n effeithiol ag adrannau eraill y cyngor sir wrth, er enghraifft, roi cyngor pendant a thargedau sosioieithyddol i Lywodraethwyr Ysgol, yr Adran Gymunedol, Gwasanaeth Prawf, Gwasanaeth Rhent, Gwasanaeth Gyrfaoedd, gan ganolbwyntio felly ar wasanaethau penodol yn eu tro.

5.2.4. Byddai angen i'r Canolfannau archwilio sgiliau ieithyddol y rhai sy'n cynnig gwasanaethau ar ran y Sir yn rheolaidd boent yn gyflogedig yn uniongyrchol ganddi ai peidio. Mae hyn yn cynnwys archwiliad ieithyddol; darganfod anghenion ieithyddol swyddi arbennig; darganfod lefel ysgrifennu staff yn y swyddi hynny; darganfod pa gefnogaeth sydd ei hangen ar ddysgwyr a swyddogion dwyieithog. Gwneir hyn er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel dewis iaith cyfrwng gwaith a chyfrwng cymdeithasol yn y Sir, fel bo diwylliant gweithredol y Sir yn cael ei Gymreigio.

5.2.5. Gallai'r Ganolfan weithredu fel pwynt cyswllt neu ddarparwr adnoddau a deunydd craidd megis offer cyfieithu ar y pryd, fideos, meddalwedd Cymraeg, a meddalwedd dwyieithog. Yn ogystal, mae'r posibilrwydd o rannu adnoddau gyda'r Awdurdod Addysg ac adrannau eraill y Cyngor Sir, e.e. y llyfrgelloedd, adrannau marchnata, adrannau cynllunio gwlad a thref ac yn y blaen. Mae'n dilyn y bydd yr adnoddau a baratoir gan Fwrdd yr Iaith, y Mentrau Sirol a chanolfannau eraill yn hollbwysig i gryfhau gwasanaeth unrhyw sir arbennig.

5.2.6. Hefyd, mae modd datblygu gwasanaethau symudol e.e. gwasanaethau hyfforddiant cyfrwng Cymraeg; gwasanaethau cyfieithu; bysiau chwarae Cymraeg i blant a fydd yn cynnwys dosbarthiadau Cymraeg dwys i rieni. Un angen amlwg mewn nifer o gymunedau y gallai Ganolfan Adnoddau Iaith ei diwallu yw'r angen am ystafell bwrpasol i gynnal cyfarfodydd lle y ceir offer dwyieithog.

## 5.3. Canolfan Adnoddau Iaith Genedlaethol

5.3.1. Y mae'n glir fod angen dehongli strategaeth Bwrdd yr Iaith ar nifer o lefelau ac y mae ehangu swyddogaeth y Mentrau Iaith yn elfen annatod ohoni. Daw'n gynyddol amlwg fod yn rhaid gwneud hynny oddi mewn i fframwaith genedlaethol. Gwelwn angen i gryfhau rôl Bwrdd yr Iaith fel sbardun ac fel asiant hwyluso nifer o bartneriaethau newydd i ail-egnïo'r Gymraeg yn y gymuned. Awgrymwn felly mai Bwrdd yr Iaith a ddylai gymryd cyfrifoldeb uniongyrchol dros symbylu sefydlu Canolfan

Adnoddau Cenedlaethol a chomisiynu ymchwil a hyfforddiant fel y crybwyllir yn adrannau'r ddogfen hon.

5.3.2. Yn bennaf, byddai'r Ganolfan Adnoddau Genedlaethol yn gyfrifol am y canlynol:

- Marchnata gwerth economaidd dwyieithrwydd i Gymru, ac i fusnesau sy'n ystyried lleoli neu fuddsoddi ynddi, yn enwedig yng nghyd-destun amlieithog yr Undeb Ewropeaidd;.
- Monitro, cefnogi a thrawsblannu gweithgareddau cynllunio ieithyddol ymarferol a damcaniaethau newydd yn y maes hwn, gan dynnu ar brofiad rhyngwladol;
- Arolygu a darparu deunyddiau ar gyfer hwyluso defnyddio'r Gymraeg, yn enwedig meddalwedd Cymraeg ar gyfer y gweithle;
- Creu cronfa ganolog o ddefnyddiau Cymraeg er mwyn i weithwyr elwa ar enghreifftiau o arfer da y gellid eu cymhwyso at eu gwahanol ddibenion;
- Paratoi deunyddiau a chanllawiau er mwyn cynorthwyo unigolion a mudiadau eraill i weithredu'n ymarferol o blaid y Gymraeg yn eu cymunedau hwy;
- Cynnig gwasanaeth cymorth wrth gefn y gallai'r cyhoedd ei ddefnyddio er mwy derbyn cyngor safonol ac awdurdodol ar ddefnyddio'r Gymraeg, er enghraifft sut i fynegi syniad cymhleth mewn achos lle mae'n rhaid i'r iaith fod yn fanwl gywir (e.e. wrth baratoi cytundeb neu ffurflen gyfreithiol);
- Gweithredu fel canolfan wybodaeth genedlaethol ar gyfer gwasanaethau cyfieithu a gwasanaethau ieithyddol eraill.

5.3.3. Rhagwelwn hefyd y bydd rôl i'r Ganolfan fel canolfan ddata ymchwil cynllunio ieithyddol. Mae ymchwil yn rhan bwysig yn y broses o lunio polisïau dwyieithrwydd addas. Yn rhy aml, anwybyddir neu diystyrir ymchwil addawol am na chynhelir dilyniant a gwaith gwerthuso a phrofi gan arbenigwyr yn ei sgil. Felly, awgrymwn y dylid sefydlu cronfa wybodaeth ganolog yn bennaf er mwyn osgoi dyblygu ymchwil a gwaith cynllunio ac i hwyluso lledu gwybodaeth am ddwyieithrwydd cymwysedig ac effeithiolrwydd polisïau iaith lleol. Gwaith dros dro, ysbeidiol, gan amlaf yw ymchwil ar gyfer paratoi polisïau iaith. Serch hynny, cafwyd buddsoddiad sylweddol yn y maes dros y blynyddoedd diwethaf. Mae angen sefydliad parhaol â staff proffesiynol i hyfforddi eraill i gynnal gorolwg ar y maes ac ar faterion polisi mewn peuoedd arbenigol. Nid gweld cynnydd yn unig yn y nifer sy'n medru'r Gymraeg, nac ychwaith ddatblygu

peuoedd newydd sydd eu hangen arnom, ond gweld y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n effeithlon ac yn naturiol ym meysydd gwasanaethau cyhoeddus, y sector iechyd, y sector masnachol, y sector gwirfoddol ac yn y gymuned drwyddi draw. Byddai'r Ganolfan yn cynnig strwythur addas ar gyfer y gweithgaredd hwn a gellid felly ychwanegu i'r rhestr uchod gyfrifoldeb ychwanegol, sef noddi, neu drefnu ar y cyd, seminarau ar gynllunio ieithyddol ymarferol yng Nghymru ac yn y cyd-destun Ewropeaidd, gan dynnu ar arferion da o ranbarthau eraill fel Catalonia a Gwlad y Basg.

## 5.4. *Animateurs* ieithyddol

5.4.1. Un ffordd hanfodol bwysig o gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yw creu fframwaith sy'n adeiladol o blaid dwyieithrwydd; hynny yw, y broses o wireddu'r hawliau sifil a ymgorfforir yn y Ddeddf Iaith a siarteri hawliau dynol cydnabyddedig. Cnewyllyn y newid cymdeithasol hwn fyddai dyfnhau'r dwyieithrwydd arwynebol sydd eisoes yn bod a'i estyn i weithleoedd sefydliadau sy'n darparu gwasanaeth i'r cyhoedd. Os yw gwasanaethau cyhoeddus Cymru o ddifrif yn eu hymateb i ganllawiau polisi dwyieithrwydd, yna dylent *gynnig* gwasanaeth dwyieithog cynhwysfawr heb roi'r argraff mai cyfaddawd ydyw. Yn achos nifer o sefyllfaoedd y mae angen sbardun o'r tu allan. Felly, un o'n prif argymhellion yw fod Bwrdd yr Iaith, Awdurdodau'r Wladwriaeth a chwmnïoedd a sefydliadau o bob math yn datblygu'r syniad o *animateurs* ieithyddol - unigolion â swyddogaeth benodol i hyrwyddo defnyddio'r iaith.

5.4.2. Byddai *animateurs* ieithyddol yn gweithredu ar y tair lefel isod, a chyda gwahanol raddau o gefnogaeth ariannol ac awdurdod:

- Ar y lefel leol, fel anogwyr cymdeithasol, gallai gweithwyr cymdeithasol neu nyrsys/ ymwelwyr iechyd/ bydwragedd, mewn rhai achosion, dderbyn cyfrifoldeb dros Gymreigio'u gwasanaethau fel rhan o'u cyfrifoldebau;
- Oddi mewn i sir neu ranbarth penodol, gallent weithio yn ôl swyddogaeth eang i hyrwyddo'r Gymraeg un ai yn annibynnol ar unrhyw Fenter; neu fel gwaith rhagflaenol cyn sefydlu Menter Iaith lle bo'n briodol;
- Oddi mewn i ddiwydiannau neu alwedigaethau penodol, gallai *animateur* ieithyddol weithio'n ysbeidiol yn yr heddlu, awdurdodau lleol neu ymddiriedolaethau iechyd, gwasanaethau tân ac ambiwlans, er enghraifft. Eu rôl fyddai sefydlu fframwaith dwyieithog newydd i wella arferion gweithio da neu i fraenaru'r tir ar gyfer gweithredu

cynlluniau iaith yn y gweithle gan addasu modelau da o weithio o wahanol sectorau.

5.4.3. O ran rôl a chyllid, gellid cyflogi *animateurs* ieithyddol gan gonsortiwm o asiantaethau lled-gyhoeddus e.e. Bwrdd Rheoli Llywodraeth Leol, neu gellid eu cyflogi'n uniongyrchol mewn partneriaeth â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gontractau tymor penodol, e.e. 5 mlynedd, er mwyn braenaru'r tir ar gyfer mentrau ieithyddol a gynlluniwyd, ond nas gwireddwyd eto.

5.4.4. Wrth gwrs, mae gwahaniaeth mawr rhwng cynllun arfaethedig a bodolaeth gwasanaeth sy'n gwbl ddwyieithog. Er mwyn gwireddu gwasanaeth dwyieithog o'r fath, bydd angen *animateur* ieithyddol wedi'i hyfforddi'n dda ar sawl asiantaeth gyhoeddus er mwyn gweithredu nodau tymor canol. Trwy 'arfer dda' golygwn godau ymddygiad, croesffrwythloni syniadau, meddalwedd a ddatblygwyd yn y naill sector yn cael ei drosglwyddo i'r llall (e.e. cyfrifeg, gwaith cymdeithasol) ac yn y blaen.

5.4.5. Mewn ardaloedd a hir Seisnigwyd lle nad oes cynhaliaeth dorfol nac is-adeiledd i'r Gymraeg, mae taer angen Mentrau eglur eu nod, y bydd eu personél yn gweithio fel cyd-drefnwyr, neu *animateurs*. Fodd bynnag, mae'n hanfodol fod y fath *animateurs* yn cael eu hyfforddi'n llawn mewn nifer o sgiliau a'u bod yn cael eu cefnogi gan arbenigrwydd a deunydd a gynhyrchwyd trwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Gellir meddwl am y Bwrdd yn paratoi'r eitemau canlynol ar gyfer *animateurs* ieithyddol:

- pecyn adnoddau sy'n trafod egwyddorion a phrosesau cynllunio ieithyddol gan gynnwys enghreifftiau manwl o "arfer dda" ac "arfer wael", yn ogystal ag achosion o gynllunio iaith llwyddiannus ac aflwyddiannus. Awgrymwn fod y Bwrdd yn comisiynu'r cyfryw becyn fel mater o frys;
- dadansoddiad cynhwysfawr o'r cyfrifoldebau ffurfiol sydd gan bob asiantaeth parthed hyrwyddo'r Gymraeg, gan gynnwys enwau a chyfeiriadau personau cyswllt allweddol o fewn yr ardal darged leol, fel y gellir hybu rhwydweithio effeithiol o ddechrau unrhyw benodiad;
- hyfforddiant mewn swydd ar gyfer pob *animateur* iaith ar lefel genedlaethol. Yn ychwanegol, mae eisiau profiad rhyngwladol wedi'i dynnu o enghreifftiau Ewropeaidd tebyg a chyferbyniol. Gellid rhannu'r hyfforddiant hwn rhwng canolfannau academaidd penodol, yn ogystal â chael mewnbwn oddi wrth Fyrddau Iaith perthnasol, y Biwrô Ewropeaidd dros Ieithoedd Llai a'r Comisiwn Ewropeaidd. Cwestiwn allweddol i'w ofyn yw pwy fydd yn ysgogi'r gweithgaredd hwn? Mae

rôl amlwg i Fwrdd yr Iaith fod yn gydlynydd rhyngwladol yn y maes hwn.

5.4.6. Er mwyn cyflawni'r nodau uchod, byddai angen rhwydwaith cenedlaethol o bersonél Mentrau a fyddai hefyd yn ymgysylltu yn y broses o hyrwyddo'r sgiliau arwain cymunedol hynny y mae cymaint o'u hangen. Gellid datblygu'r sgiliau hyfforddi cymunedol ieithyddol-sensitif gan fudiad allanol fel CCETSW Cymru fel rhan o'i raglen hyfforddi gwaith cymdeithasol, ac anogwn Bwrdd yr Iaith i archwilio'r posibilrwydd hwn. Ceir rhagor am hyfforddi cymunedol yn y prif adroddiad.

▲ Top

## 6. Gwireddu'r Potensial

6.0.1. Hyd yn hyn, canolbwyntiwyd ar gynnig strwythurau a fframweithiau addas ar gyfer normaleiddio'r iaith ar sawl lefel ac mewn sawl cymuned. Fodd bynnag, daw'n glir o'r canlyniadau a nodwyd yn adran 2 fod angen ystyried normaleiddio o safbwynt unigolion, sef y defnyddwyr, yn ogystal ag o safbwynt darparwyr gwasanaethau.

6.0.2. Credwn mai yn y gweithle y mae'r her fwyaf i normaleiddio'r Gymraeg. Oni chwyldroir y maes hwn, hollol ffug fydd unrhyw ddewis iaith, oherwydd nid dewis rhydd mohono. Nid yw hawliau iaith yn ddilys os fel cwsmer yn unig ac nid fel gweithiwr y gellir eu defnyddio - sail y farchnad ac nid sail hawliau democrataidd yw hynny. Felly, mae angen darpariaeth barhaol arnom er mwyn sicrhau addysg a hyfforddiant o ansawdd da ar gyfer galwedigaethau gwahanol. Mae angen cyrsiau gloywi iaith a fydd yn canolbwyntio ar sgiliau iaith ac yn codi hunan-hyder ieithyddol y gweithwyr, yn ogystal â chyrsiau ychwanegol a fydd yn galluogi unigolion i weithio'n effeithiol ac yn broffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Byddai ymgyrch genedlaethol i hybu defnyddio Cymraeg cywir, clir a syml yn rhan bwysig o'r broses hon.

6.0.3. Nid yw'r ffaith fod person yn medru'r Gymraeg yn golygu y gall ei defnyddio'n effeithiol ym maes cyllid a chyfrifon, pensaernïaeth, cynllunio gwlad a thref, iechyd a lles ac yn y blaen. Y mae'n rhaid datblygu is-strwythur addysg alwedigaethol barhaol o'r safon uchaf, a fydd yn cynnig tystysgrifau cydnabyddedig, yn gwerthuso cyrsiau, yn paratoi cynnyrch megis meddalwedd a *pro-formas* Cymraeg i'w defnyddio yn y gweithle, fel

na fydd unigolyn yn colli hyder, neu'n troi yn ôl at Saesneg mewn dryswch.

6.0.4. Neges amlwg ac elfennol sydd gennym. Fodd bynnag, ofer fydd yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg, os nas gwireddir fel iaith feunyddiol ym mhob pau trwy ehangu'r ddarpariaeth alwedigaethol i weithredu'n ddwyieithog.

6.0.5. Hawdd fyddai digalonni wrth wynebu'r her. Nid yw croniclo'r anawsterau a'r prif rwystrau yn golygu ein bod yn ildio i'r sefyllfa; rhaid cydnabod y diffygion y mae gweithwyr proffesiynol yn eu codi. Oni wneir hyn ac onid ymatebir yn ymarferol, ofer fydd holl gynllunio strategol Bwrdd yr Iaith ac asiantau eraill. Yn anad dim, mae angen inni fod yn onest wrth ddehongli'n sefyllfa a'n gobeithion yn realistig.

## 6.1. Beth yw'r prif rwystrau i'r Gymraeg ym myd gwaith?

6.1.1. Pwysleisia canlyniadau'r ymchwil fod sawl rhwystr i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ym myd gwaith ar hyn o bryd. Ymysg y rhain y mae:

- diffyg arfer defnyddio'r Gymraeg yn broffesiynol;
- diffyg terminoleg addas a chyson;
- diffyg hyder;
- teimlo'n lletchwith wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cymysg eu hiaith, naill ai gydag unigolion a theuluoedd, neu gyda chyd-weithwyr;
- diffyg cefnogaeth rheolwyr a phenaethiaid yn y gyfundrefn;
- diffyg perchnogaeth ar yr iaith;
- diffyg sawl agwedd ar feistrolaeth iaith, megis ei gramadeg a hyder ynddi;
- tyndra rhwng iaith ffurfiol adroddiadau a chanllawiau, ac iaith naturiol sgyrsio, ond gallai hyn fod yn wir am y Saesneg hefyd;
- tyndra personol rhwng hunan-ddelwedd broffesiynol a chaffael unigolyn ar y Gymraeg.

## 6.2. Beth sydd i'w wneud ?

6.2.1. Nid cyfrifoldeb llwyr yr unigolyn yw datrys yr holl broblemau uchod. Dengys canlyniadau'r ymchwil fod llawer iawn o'r siaradwyr Cymraeg a holwyd yn ei chael yn haws defnyddio'r Saesneg na'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol, a hyn oherwydd y gwahaniaethau hir-sefydlog yn statws y Gymraeg o'i chymharu â'r Saesneg. Er mwyn cydraddoli dewis iaith, mae angen:

- newid agweddau drwy strategaethau ac ymgyrchoedd marchnata crefftus a dulliau effeithiol eraill;
- cynyddu'r ddarpariaeth o hyfforddiant mewn swydd, fel y gellir teimlo'n gwbl hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd;
- newid ymddygiad drwy ddwyn perswâd, ennyn diddordeb a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith;
- cynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio'r Gymraeg yn feunyddiol, boent yn siaradwyr newydd neu'n lled-siaradwyr.

6.2.2. Wrth geisio newid arfer dylid pwysleisio naturioldeb yr ymgom, dileu unrhyw rwystredigaeth rhwng y darparwr a'r defnyddiwr, a 'u hargyhoeddi ill dau y gall hyn arwain at wasanaeth llawer mwy effeithiol. Un peth sydd ar goll i rai yw'r ymdeimlad o rwyddineb yn yr iaith. Mae angen ennyn ysbryd o lawenydd, tegwch a llwyddiant wrth ddarparu gwasanaethau dwyieithog. O roi'r dewis, byddai'n cyfoethogi'r profiad i'r darparwr a'r un sy'n derbyn.

6.2.3. Ymestyn a dyfnhau dwyieithrwydd yw un o themâu'r adroddiad hwn, ond rhaid gofyn yn gyntaf ym mha le y mae'r rhwystrau rhag gwneud hynny.

i. *Yn y meddwl:* Wedi canrifoedd o unieithrwydd Saesneg swyddogol, mae newid agweddau tuag at rôl y Gymraeg yn y gymdeithas yn dasg anodd. Er ein bod yn deall diffyg dymuniad rhai i weithio'n ddwyieithog, dengys yr ymchwil nad diffyg dyhead neu wrth-Gymreictod yw'r brif her o bell ffordd, ond yn hytrach ddiffyg darpariaeth ac arfer. Dylid achub ar y cyfle i gynllunio'n strategol er mwyn ceisio newid meddylfryd y cyhoedd tuag at yr iaith, gan dalu sylw arbennig at gynllunio ar gyfer pobl ifanc.

ii. *Yn ein disgwyliadau*: Ar hyn o bryd plisgyn arwynebol yw dwyieithrwydd nifer o gwmnïau a chyrff cyhoeddus lle bo dewis o unrhyw fath. Rhaid newid ein disgwyliadau os ydym am wireddu'r weledigaeth o Gymru ddwyieithog. Rhaid argyhoeddi'r cyhoedd bod y Gymraeg yn eiddo iddynt oll a'u bod yn rhannu'r cyfrifoldeb amdani. Os llwyddwn i wneud hyn, newidir diwylliant gwaith ac osgoir ymylu'r Gymraeg i gornel ddiarffordd. Y mae athroniaeth hyfforddi mudiadau arloesol fel CCETSW yn llygad ei lle. Dywed "nad problem yw dwyieithrwydd, ond ffaith, a rhaid cydnabod y ffaith honno os yw'r gwasanaeth a ddarperir i fod yn un o ansawdd

a pherthnasedd".

iii. *Yn ein hawliau sifil:* Y mae'r unigolyn yn ddinesydd â hawliau cydnabyddedig. Dyma un o brif themâu'r gwaith, sef bod cynifer o drigolion ein gwlad yn ymwybodol ar hyn o bryd nad yw eu hawliau dinesig yn cael eu llwyr ddiwallu gan y drefn. Mae angen newid arferion gweithio a sicrhau llawer mwy o ddarpariaeth er mwyn cynnig a chynnal dewis ieithyddol effeithlon i'r cyhoedd.

iv. *Yn y gymuned:* Y mae angen ymestyn ffin dwyieithrwydd yn y gymuned, yn y sefydliadau a'r asiantaethau sy'n cynnal ansawdd bywyd ac yn cynnig gwell ffordd o ymdrin â holl broblemau cymdeithasol ein hoes. Yr her i ni yng Nghymru yw creu partneriaeth a fydd yn ein galluogi i rannu profiadau ac elwa ar brofiadau ein gilydd. Estyniad o rym personol a grym cymdeithasol yw ein gallu i ddewis ym mha iaith y'n gwasanaethir. Ond, y mae sicrhau'r posibilrwydd o ddewis yn ddibynnol ar gefnogaeth wleidyddol, genedlaethol a rhyngwladol.

v. *Yn y byd gwleidyddol:* Dibynna gwireddu hawliau ieithyddol ar ba mor ymatebol y mae cyrff cyhoeddus i oblygiadau'r Ddeddf Iaith ar y naill law a phwysedd cymdeithasol ar y llall. Mae ymateb llywodraeth leol i'r angen i baratoi cynllun iaith yn rhannol ddibynnol ar eu dewis i neilltuo arian ar ei gyfer ac ar ymateb y bobl a effeithir gan y cynllun yn y pen draw, sef ei hetholwyr. Heb ymateb cadarnhaol gan y rheiny, mae'n annhebyg y bydd llywodraeth leol yn rhoi blaenoriaeth i sefydlu fframwaith uchel ei nod ar gyfer y Gymraeg. O'r herwydd, ni ellir disgwyl lefel gyson o ddarpariaeth ieithyddol ledled y wlad. Mae'r anghysondeb hwn yn nodweddiadol hefyd o ymateb rhai cyrff cyhoeddus anadrannol i'w gorchwylion i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd, er nad oes ganddynt etholwyr fel y cyfryw. I raddau helaeth, mae llwyddiant tebygol y Ddeddf Iaith yn dibynnu ar y defnydd a wneir o'r ddarpariaeth a ddaw yn ei sgil. Mater o frys felly yw symbylu'r cyhoedd i ddefnyddio'r cyfleoedd newydd i'w llawn potensial ac ymgyfarwyddo â'r drefn newydd.

6.2.4. Rhaid ystyried hyn oll yn y cyd-destun Prydeinig ac Ewropeaidd. Mae cynifer o'r newidiadau sy'n effeithio ar y Gymraeg yn deillio o'n sefyllfa fel rhan o'r Deyrnas Gyfunol ac ar bolisïau'r Wladwriaeth. Rhaid nodi felly y gall y newidiadau cyfansoddiadol arfaethedig yng Nghymru

effeithio'n fawr ar statws cyfreithiol ac ymarferol yr iaith. P'un ai y daw Gynulliad i Gymru ai peidio, mae'n amlwg y bydd proffil y Gymraeg fel iaith weinyddol swyddogol yn codi. Effaith hyn fydd cyfreithloni ac awdurdodi dwyieithrwydd fel 'norm' cymdeithasol. Y mae Cymru, fel nifer o ranbarthau eraill Ewrop, e.e. Catalonia, Gwlad y Basg, Friesland a Friuli, wedi gweld cynydd yn y pwyslais a roddwyd ar eu hieithoedd brodorol ac ar ddatblygiad rhanbarthol. Yn y blynyddoedd nesaf, rhoddir mwy o bwyslais ar briod le yr ieithoedd llai yng nghyd-destun rhaglenni canolog yr Undeb Ewropeaidd. Rhydd hyn gyfle arbennig i Gymru chwarae rhan amlwg wrth lywio polisïau ieithyddol a chymdeithasol yn Ewrop.

6.2.5. Er mwyn ymestyn a dyfnhau dwyieithrwydd y mae'n rhaid creu partneriaeth holistaidd rhwng asiantau allweddol pwysig fel Awdurdodau Lleol, Mentrau Iaith, Ymddiriedolaethau Iechyd, Siambrau Masnach, ac adrannau'r Llywodraeth a chyrff y Goron. Y mae byd busnes yn hen gyfarwydd â chreu partneriaethau holistaidd o'r fath gan fod yn rhaid iddynt fod mewn sefyllfa i ymateb yn hyblyg i newidiadau rhyngwladol. Mae'n bryd datblygu perthnasau tebyg er budd y Gymraeg. Eisoes, mae Antur Teifi yn deall hyn ac yn manteisio arno.

### 6.3. Newid agweddau

6.3.1. Y mae newid agweddau yn dechrau gyda'r gyfundrefn addysg. Mae perygl ein bod wedi gorlwytho'r gyfundrefn addysg wrth ei defnyddio fel unig gynhaliwr ac iachawdwr ein diwylliant. Y sector addysg fu prif gyfrwng y newidiadau hanesyddol yng nghyd-destun yr iaith: nid oes amheuaeth ynghylch hynny, ond mae peryglon mewn ystyried ysgolion a'u hathrawon fel unig waredwyr y Gymraeg yn hytrach nag fel un elfen angenrheidiol mewn proses eangach o addysgu plant. Yn ddiau, rhaid parhau i sicrhau fod y gyfundrefn addysg yn cefnogi datblygiad y Gymraeg. Ond mae perygl gwirioneddol o ganolbwyntio'r holl sylw arni ein bod yn esgeuluso'r cyd-destun cymdeithasol y mae'r addysg honno'n ei wasanaethu.

6.3.2. Daeth addysg Gymraeg i'r amlwg wrth i'r hen berthynas rhwng aelwyd, capel a chymuned a oedd yn rhan hanfodol o'n diwylliant, wanhau. Hyd yn hyn, nid yw'r un asiant cymdeithasol arall wedi llanw'r bwlch yn effeithiol. Nid yw'r datblygiadau yn y cyfryngau torfol yn ateb yr un anghenion am gyfathrach gymdeithasol ac, yn wir, honna rhai eu bod yn cyfrannu at ddirywiad rhwydweithiau cymunedol. I raddau helaeth, mae natur ein diwylliant poblogaidd wedi'i gweddnewid oddi ar yr Ail Ryfel Byd. Oherwydd ei maint, ni all y gymuned Gymraeg ei hiaith gynnal

amrediad diwylliannol eang heb nawdd cyhoeddus. Serch hynny, ac o ganlyniad i'r gefnogaeth a fu, gwelwyd cryn lwyddiant wrth gyhoeddi nofelau a llyfrau newydd yn y Gymraeg, er na chafwyd hyd yn hyn bapur dyddiol Cymraeg ar wedd draddodiadol. Fodd bynnag, gyda chynydd ym myd technoleg, fel teletestun, y Rhyngrwyd ac e-bost, gwelwn gynydd sylweddol ar ledu eitemau newydidon. Mae'n amserol cychwyn trafodaeth ar sefydlu ac ariannu 'papur' dyddiol Cymraeg drwy fanteisio ar y dulliau hyn.

6.3.3. A beth am achos y Gymraeg fel ail-iaith? O ystyried maint demograffig y boblogaeth ail-iaith, mae'n sicr y dylai dysgwyr sy'n oedolion, rhieni disgyblion ysgolion Cymraeg, y rheiny sy'n derbyn y Gymraeg fel rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r rhai a gafodd eu magu'n ddi-Gymraeg gan rieni Cymraeg eu hiaith, dderbyn llawer mwy o sylw yn y dyfodol. Dylai unrhyw broses o gynllunio iaith fedru dadansoddi llwyddiant trochi hwyr a mesur cyfraniad canolfannau hwyr-ddyfodiaid i'r broses o gymathu ieithyddol. Ond, yn ogystal â hynny, y mae angen ffyrdd o ddadansoddi llwyddiant a methiant oedolion i ddysgu'r iaith trwy ddosbarthiadau ffurfiol ac o broblemau'r dysgwyr hynny, wrth geisio ymdoddi i gymunedau a rhwydweithiau Cymraeg eu hiaith.

6.3.4. Mae ymwybyddiaeth eang yn Ewrop o ddulliau profedig a llwyddiannus o ddysgu ieithoedd mwyafrifiol. Yn raddol, mae'r dulliau hyn yn treiddio i fyd yr ieithoedd llai eu defnydd. Er enghraifft, mae bodolaeth rhwydwaith rhyngwladol VisioNet, y mae Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yn rhan ohono, yn argoeli'n dda yn hyn o beth. Un o nodau'r rhwydwaith hwn yw hyrwyddo dysgu ieithoedd lleiafrifol i oedolion o bob lefel ieithyddol, gan gydweithredu ag ardaloedd eraill yn Ewrop, fel Llydaw a Gwlad y Basg, sydd â phroblemau ieithyddol cyffelyb i eiddo Cymru, gan ddatblygu a hyrwyddo dulliau arloesol o ddysgu effeithiol a chyfnewid syniadau methodolegol.

6.3.5. Y mae angen sylw manylach ar sut y gellid newid agwedd a delfryd siaradwyr y Gymraeg, ac y mae creu system o hyfforddiant parhaus i gynorthwyo siaradwyr naturiol a dysgwyr loywi eu defnydd o'r iaith yn eu meysydd proffesiynol penodol yn fater y mae angen sylw manwl iddo. Mae angen buddsoddi'n sylweddol mewn fframweithiau effeithiol i ddysgu'r Gymraeg i oedolion, ac mae angen hyfforddi'r siaradwyr rhugl i ddelio â siaradwyr llai rhugl yn y gweithle ac yn y gymdeithas eangach fel ei gilydd.

6.3.6. Rhaid ailbwysleisio'r angen i greu delwedd gyfoes, ddeinamig i'r iaith. Y mae rhwydweithiau sy'n ddibynnol ar beirianwaith, ar feddalwedd

ac ar gyfrifiaduron yn rhan hanfodol o'r broses. Fodd bynnag, dim ond hanner y stori yw hyn. Nid oes dim a all gymryd lle profiad teuluol, profiad torfol, profiad pob dydd, ond y mae ehangder y profiad hwn yn ei dro yn gwbl ddibynnol ar y cyfleoedd sydd ar gael i'r unigolion.

6.3.7. Y mae angen gofyn beth yw perthynas yr unigolyn â'r is-strwythur sy'n cynnal ein hymddygiad ieithyddol. Y mae'n amlwg fod angen buddsoddi ymhob maes, ond a ydym yn barod i dalu'r pris? Hynny yw, a ydym yn gofyn i un genhedlaeth gynnal yr holl newidiadau hyn a ddylai fod wedi bod yn rhan normal o'n hanes fel cenedl dros ganrifoedd? Beth yw ein nod fel cymdeithas? Ai dwyieithrwydd cynhwysfawr, neu fersiwn rhanedig, sydd ond yn ceisio sicrhau dwyieithrwydd mewn peuoedd penodol? Os y cyntaf yw'r ateb mi fydd costau cychwynnol, mewn arian ac amser, ond heb hynny oni fydd y miliynau sydd eisoes wedi eu buddsoddi mewn addysg Gymraeg yn aneffeithiol? Y mae angen agenda i wireddu hawliau ieithyddol. Y mae angen partneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat, gyda chynllunwyr iaith proffesiynol yn ysgogi gweithgareddau ac yn helpu cymunedau i greu patrymau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywyd.

6.3.8. Y mae llawer o waith caled o'n blaenau. Ni ellir cyrraedd y nodau a'r blaenoriaethau hyn heb lawer mwy o bwyso cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd Ond ni fydd yr un ohonynt werth eu gwireddu onid ystyrir y newidiadau enfawr sy'n digwydd yn y gymdeithas sydd ohoni. Yng nghyd-destun Strategaeth Bwrdd yr Iaith, awgrymir yr argymhellion a ddilyn sy'n codi o'n hasesiad o'r anghenion i fanteisio ar botensial y Gymraeg fel iaith gymunedol unwaith yn rhagor.

▲ Top

# 7. Argymhellion

## 7.1. Y Prif Argymhellion

7.1.1. Dylid datblygu ac addasu cysyniad y Mentrau Iaith ar gyfer ardaloedd eraill yn unol â'r fframwaith a gynigir yn adran 4 o'r ddogfen hon, ac annog a chefnogi sefydlu Mentrau Iaith newydd lle bynnag y bo'n briodol. (Paragraff 3.6.3)

7.1.2. Dylid datblygu a gweithredu'r cysyniad o Fentrau Iaith Sirol yn unol

â'r esiampl a drafodir yn adran 5.1 o'r ddogfen hon.

7.1.3. Dylid datblygu a gweithredu'r cysyniad o Ganolfannau Adnoddau Iaith Sirol yn unol â'r fframwaith a gynigir yn adran 5.2 o'r ddogfen hon.

7.1.4. Dylid datblygu a gweithredu'r cysyniad o Ganolfan Adnoddau Iaith Genedlaethol yn unol â'r fframwaith a gynigir yn adran 5.3 o'r ddogfen hon.

7.1.5. Dylid datblygu a sefydlu rhwydwaith o *animateurs* ieithyddol yn unol â'r cysyniad a gynigir yn adran 5.4 o'r ddogfen hon.

7.1.6. Dylid mireinio'r berthynas rhwng Bwrdd yr Iaith, y Mentrau Iaith, yr awdurdodau lleol, y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol a sefydlu partneriaethau effeithiol er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth ddwyieithog a chynorthwyo cymunedau i ddefnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar eu bywyd drwy gynnig dewis ieithyddol effeithlon i'r cyhoedd. (Paragraffau 2.5.12, 6.2.3ii a 6.3.7)

7.1.7. Dylid llunio a chynnal strategaeth farchnata o blaid yr iaith Gymraeg er mwyn denu pobl at rwydweithiau Cymraeg, er mwyn annog pobl i ddefnyddio'r cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith sydd eisoes ar gael, ac er mwyn hyrwyddo delwedd gyfoes, ddeinamig i'r iaith. (Paragraff 6.3.6)

7.1.8. Dylid cynnal ymgyrch i annog bobl - yn enwedig siaradwyr ail-iaith - i fagu eu plant yn y Gymraeg a chynyddu'r cyfleoedd naturiol i blant a phobl ifanc gymdeithasu â'i gilydd a chydag ystod o oedolion y tu mewn a'r tu allan i'r teulu agos trwy gyfrwng y Gymraeg. (Paragraff 2.5.4)

7.1.9. Dylid archwilio'n drwyadl i'r llwyddiannau a methiannau a gafwyd wrth ddysgu'r iaith i oedolion, ac o'u problemau wrth geisio ymdoddi i gymunedau a rhwydweithiau Cymraeg eu hiaith, er mwyn llunio fframweithiau effeithiol yn y maes, ac yna buddsoddi'n sylweddol ynddi. (Paragraff 6.3.3-6.3.5)

7.1.10. Dylid cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer hyfforddiant ieithyddol mewn swydd (Paragraff 2.4.4); dylid datblygu a buddsoddi mewn is-strwythur addysg alwedigaethol barhaol o'r safon uchaf er mwyn hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol yn y gweithle. (Paragraff 6.0.3)

7.1.11. Dylid paratoi pecynnau adnoddau addas er mwyn hwyluso'r broses o sefydlu Mentrau Iaith a Chanolfannau Adnoddau Iaith newydd, ac er mwyn hyfforddi arweinwyr cymunedol ac *animateurs* ieithyddol; dylid sicrhau fod hyfforddiant perthnasol yn cael ei ddarparu ar gyfer arweinwyr

cymunedol yn arbennig. (Paragraffau 5.1.7, 5.2.5 a 5.4.6).

7.1.12. Dylid ymgynghori â'r Swyddfa Gymreig ynghylch ail-lunio'r rhannau o'r broses gynllunio statudol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar atgyfnerthu'r iaith yn y gymuned. (Paragraff 2.5.8);

7.1.13. Dylid cydweithio â Bwrdd Datblygu Cymru Wledig, Awdurdod Datblygu Cymru (neu unrhyw gyrff a sefydlir yn eu lle), Menter a Busnes ac Antur Teifi er mwyn datblygu nifer o syniadau a phrosesau Antur Teifi ac ennyn datblygiad economaidd cynaladwy mewn ardaloedd eraill. (Paragraff 3.2.7)

## 7.2. Argymhellion eraill

7.2.1. Dylid cynnal ymgyrch i gynyddu defnyddio'r iaith drwy ddarparu'n ddwyieithog ar gyfer meddalwedd a thechnoleg.

7.2.2. Dylid cynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg drwy eu hysbysebu amdanynt yn eang.

7.2.3. Dylid sicrhau fod darparwyr yn cynnig gwasanaeth dwyieithog i'r dinesydd yn hytrach na bod yn rhaid iddo ofyn am y Gymraeg.

7.2.4. Dylid creu fframwaith sy'n adeiladol o blaid dwyieithrwydd: yn seiliedig ar y broses o wireddu'r hawliau sifil hynny a ymgorfforir yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993 a siarteri hawliau dynol cydnabyddedig.

7.2.5. Dylid dyfeisio tactegau mwy rhagweithiol i ddarbwyllo siaradwyr ail-iaith i ddefnyddio'r Gymraeg yn amlach.

7.2.6. Dylid ennyn cydweithrediad rhwng Bwrdd yr Iaith Gymraeg a nifer o gyrff proffesiynol Cymru i wireddu'r cysyniad o wasanaeth dwyieithog, i normaleiddio'r syniad o'r gweithle dwyieithog, i baratoi dogfennau swyddogol mewn Cymraeg cywir, syml a chlir, i safoni'r termau a ddefnyddir gan gyrff sy'n darparu gwasanaeth dwyieithog, i argyhoeddi cwmnïau a chyrff eu bod yn rhan dyngedfennol o strategaeth ehangach ar gyfer y Gymraeg.

7.2.7. Mae angen ymchwil broffesiynol i nifer helaeth o agweddau parthed cynllunio ieithyddol a chynllunio gwlad a thref er mwyn gwireddu'r wedd holistaidd ar y broses adfywio. Yn yr un modd, galwn am ymchwil i'r gydberthynas rhwng datblygiad economaidd ac ymyrraeth lywodraethol (er enghraifft, drwy'r system trethi) a dyfodol yr iaith.

7.2.8. Dylid cydweithio â'r cyfryngau er mwyn cynnig *role models* effeithiol ar gyfer defnyddio a dysgu'r iaith.

7.2.9. Dylid ystyried mabwysiadu'r dengair isod a ddefnyddir i hyrwyddo'r Gatalaneg ar gyfer y Gymraeg fel a ganlyn:

*i. Siaradwch Gymraeg ar bob achlysur, yn arbennig gyda'ch teulu a'ch ffrindiau. Ceisiwch siarad Cymraeg gyda'r bobl hynny sy'n deall yr iaith, hyd yn oed os ydych yn siarad â nhw yn Saesneg ar hyn o bryd.*

*ii. Byddwch yn gwrtais gyda phawb sy'n siarad iaith arall, ond mynnwch eu bod yn dangos yr un parch at eich iaith chwi.*

*iii. Siaradwch Gymraeg â phawb; ar y stryd, ar y ffôn, yn y gwaith ac ati. Os yw'r person arall yn eich deall, daliwch ati yn Gymraeg, hyd yn oed os cewch ateb mewn iaith arall.*

*iv. Rhowch hwb i aelodau o'ch teulu nad ydynt eto'n deall y Gymraeg yn llwyr trwy siarad yn araf a thrwy esbonio ambell ymadrodd iddynt.*

*v. Pan fydd rhywun yn ceisio siarad Cymraeg, rhowch gymorth iddynt, gan ddangos eich bod yn gwerthfawrogi'u hymdrech.*

*vi. Peidiwch â gorgywiro siaradwyr eraill: dysgwch drwy esiampl.*

*vii. Parchwch y tafodieithoedd gwahanol a meithriniwch gyfoeth Cymraeg llafar.*

*viii. Cefnogwch bapurau newydd a chylchgronau Cymraeg. Manteisiwch ar bob cyfle i fwynhau rhaglenni, sioeau byw, llyfrau a deunydd modern cyffrous yn y Gymraeg.*

*ix. Defnyddiwch y Gymraeg wrth ysgrifennu, yn enwedig â chwmnïau mawr a chyrff cyhoeddus - er enghraifft, ysgrifennwch eich sieciau yn Gymraeg. Gwnewch y Gymraeg yn weladwy ac yn glywadwy ym mhroffil eich busnes, er enghraifft yn eich arwyddion, eich hysbysebion a'ch negeseuon i'ch cwsmeriaid.*

*x. Mynnwch eich hawl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu â chwmnïoedd a sefydliadau. Gwnewch hynny mewn modd cwrtais*

*ac adeiladol, a thrwy ddilyn y dengair adeiladwn Gymru ddwyieithog sy'n eiddo i bawb.*

7.2.10. Dylid achub ar y cyfle i gynllunio'n strategol er mwyn ceisio newid meddylfryd y cyhoedd tuag at yr iaith, gan dalu sylw arbennig at gynllunio ar gyfer pobl ifanc.

7.2.11. Rhaid argyhoeddi'r cyhoedd bod y Gymraeg yn eiddo iddynt oll a'u bod yn rhannu'r cyfrifoldeb amdani.

7.2.12. Y mae angen ymestyn ffin dwyieithrwydd yn y gymuned, yn y sefydliadau a'r asiantaethau sy'n cynnal ansawdd bywyd ac sy'n ymdrin â phroblemau cymdeithasol.

7.2.13. Dylid cychwyn trafodaeth ar sefydlu ac ariannu 'papur' dyddiol Cymraeg drwy fanteisio ar y dechnoleg ddiweddaraf fel teletestun, e-bost, a'r Rhyngrwyd.

7.2.14. Dylid sicrhau fod triniaeth feddygol neu ddeintyddol ar gael yn hawdd yn y Gymraeg lle bynnag y bo'n bosibl.

7.2.15. Dylid sicrhau dewis iaith uniongyrchol ar linellau ffôn ymholiadau gwasanaethau cyhoeddus a phreifat drwy ddulliau cyfrifiadurol, fel na fydd yn rhaid i gwsmer orfod ofyn am y Gymraeg. Ni ddylai'r gwasanaeth Cymraeg ddefnyddio rhif gwahanol i'r gwasanaeth Saesneg lle bynnag y bo'n bosibl.

7.2.16. Mae lle i gynllunio pwrpasol er mwyn marchnata'r iaith yn well fel cymhwyster economaidd yn ogystal â'i hyrwyddo fel rhan annatod o gymeriad cymunedau Cymraeg eu hiaith.

7.2.17. Dylai cynghorau lleol fwrw ati i gynyddu eu darpariaeth ddysgu ail-iaith.


| | |
|---|---|
| **LLINELL GYSWLLT Â'R GYMRAEG**<br>**0845 6076070**<br>**(Cyfradd galwadau lleol)** | **Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT... nodwch y rhif!** |


Yn ôl i'r Hafan Dudalen